

**Memorandwm Esboniadol ar gyfer** ‘Rheoliadau Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd (Cymru) 2021’, ‘Rheoliadau Cyd-bwyllgor Corfforedig y De-orllewin (Cymru) 2021’ ‘Rheoliadau Cyd-bwyllgor Corfforedig y Canolbarth (Cymru) 2021’ a ‘Rheoliadau Cyd-bwyllgor Corfforedig y De-ddwyrain (Cymru) 2021’.

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan yr adran Llywodraeth Leol ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1

### **Datganiad y Gweinidog/Dirprwy Weinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig ‘Rheoliadau Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd (Cymru) 2021’, ‘Rheoliadau Cyd-bwyllgor Corfforedig y De-orllewin (Cymru) 2021’ ‘Rheoliadau Cyd-bwyllgor Corfforedig y Canolbarth (Cymru) 2021’ a ‘Rheoliadau Cyd-bwyllgor Corfforedig y De-ddwyrain (Cymru) 2021’. Rwyf wedi fy modloni bod y manteision yn cyfiawnhau'r costau tebygol.

**Julie James AS,  
Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol**

23 Chwefror 2021

# RHAN 1

## 1. Disgrifiad

Mae'r Memorandwm Esboniadol a'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn ar gyfer y Rheoliadau sefydlu ar gyfer y Cyd-bwyllgorau Corfforedig (CBCau) a ganlyn:

- CBC Gogledd Cymru
- CBC Canolbarth Cymru
- CBC De-orllewin Cymru
- CBC De-ddwyrain Cymru

Er bod pedair set ar wahân o Reoliadau Sefydlu CBC, un yr un ar gyfer y CBCau uchod, mae'n bwysig nodi bod cynnwys y Rheoliadau hynny yr un fath o ran sylwedd. Rydym felly'n cyflwyno'r Memorandwm Esboniadol a'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol unigol hwn ar gyfer pob un o'r Rheoliadau drafft. Mae unrhyw gyfeiriad at y Rheoliadau, oni nodir yn wahanol, yn cyfeirio at bob un o'r Rheoliadau Sefydlu CBC.

Mae'r RIA o fewn y Memorandwm Esboniadol hwn yn ystyried costau a manteision sefydlu CBCau, i gynnwys y costau a'r manteisio sy'n gysylltiedig â'r bwriad i drin CBCau fel rhan o'r 'teulu llywodraeth leol' – hynny yw, lle y bo'n briodol, bod CBCau yn ddarostyngedig i'r un fframwaith gweinyddol a llywodraethu a'r dyletswyddau a'r pwerau cyffredinol sy'n sail i lywodraeth leol (gweler para 4.13 a 4.14). Y bwriad felly yw y bydd yr RIA o fewn y Memorandwm Esboniadol hwn hefyd yn cefnogi'r Rheoliadau Cymhwysio Cyffredinol y cyfeirir atynt ym mhwynt 4.13 uchod.

## 2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Dim.

## 3. Y cefndir deddfwriaethol

Mae Rhan 5 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i sefydlu Cyd-bwyllgorau Corfforedig ar gyfer yr ardaloedd penodedig pan na fo cais wedi ei wneud.

Caiff y rheoliadau hyn eu gwneud o dan y weithdrefn penderfyniad cadarnhaol.

## 4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

### Y cefndir

- 4.1 Yn dilyn yr ymgynghoriad ar y Papur Gwyrdd 'Cryfhau Llywodraeth Leol: Cyflawni dros ein Pobl' yn 2018, sefydlwyd y Gweithgor Llywodraeth Leol

gan Llywodraeth Cymru a chyrrff llywodraeth leol. Ei ddiben oedd gweithio, drwy bartneriaeth a pharch o'r ddwy ochr, i ddatblygu agenda gyffredin ar gyfer diwygio sy'n sicrhau cynaliadwyedd llywodraeth leol a darpariaeth gwasanaethau lleol.

- 4.2 Fel rhan o'r rôl hon, bu'r Gweithgor yn adolygu'r trefniadau cydweithio rhanbarthol presennol ym maes llywodraeth leol, yr awydd am fwy o gydweithredu yn y dyfodol, a'r blaenoriaethau o ran hynny.
- 4.3 Ym mis Mehefin 2019 cyhoeddwyd argymhellion y Gweithgor gan y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol. Mae'r argymhellion yn cwmpasu nifer o feysydd gan gynnwys cydwasanaethau, uno gwirfoddol, pwerau a hyblygrwydd, amrywiaeth ym maes llywodraeth leol, a'r agenda parch o'r ddwy ochr.
- 4.4 Un o argymhellion allweddol y Gweithgor oedd yr angen i sicrhau systemau a strwythurau mwy cyson i gefnogi cydweithio a chydweithredu rhanbarthol – sef system a fyddai'n cynnal atebolrwydd democrataidd lleol, yn sicrhau cysondeb o ran trefniadau cydweithredu, ac yn symleiddio'r trefniadau hynny.
- 4.5 Gan ddatblygu ar sail argymhellion y Gweithgor, mae Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (y Ddeddf) yn darparu ar gyfer fframwaith cydweithredu rhanbarthol. Bydd y fframwaith yn cefnogi ac yn annog cydweithio a chydweithredu rhanbarthol drwy ddull mwy cydlynol, cyson a syml a reolir yn ddemocrataidd (Cyd-bwyllgorau Corfforedig – CBCau).
- 4.6 Mae'r Ddeddf yn darparu ar gyfer sefydlu CBCau drwy reoliadau. Mae CBC yn gorff corfforedig ar wahân sy'n gallu cyflogi staff, dal asedau a chyllidebau, ac ymgymryd â swyddogaethau. Mae'r Ddeddf yn caniatáu dwy ffordd o sefydlu CBCau:
  - Yn ôl cais dau neu ragor o brif gynghorau (mewn perthynas ag unrhyw swyddogaeth y maent yn ei harfer)
  - Ar archiad Gweinidogion Cymru (mewn perthynas â nifer o swyddogaethau cyfyngedig a phenodedig).
- 4.7 Caiff Gweinidogion Cymru ddechrau'r broses o sefydlu CBC i arfer swyddogaethau heb gais gan y prif gynghorau, ond dim ond mewn perthynas â swyddogaethau penodol sy'n cael eu pennu yn y Ddeddf. Y meysydd lle y gall Gweinidogion Cymru ddechrau'r broses o sefydlu CBC yw trafndiaeth, datblygu economaidd, cynllunio strategol ar gyfer datblygu a defnyddio tir, a gwella addysg.
- 4.8 Mae'r rhain yn feysydd lle mae trefniadau rhanbarthol yn bodoli eisoes i raddau helaeth, lle mae'r achos dros gydweithio rhanbarthol wedi ei gadarnhau, a lle mae cyfle i sicrhau cysondeb a disgyblaeth yn null gweithredu Llywodraeth Cymru o ran trefniadau cydweithio rhanbarthol ar draws meysydd polisi gwahanol. Er enghraifft, mae darpariaeth wedi ei gwneud eisoes mewn deddfwriaeth ar gyfer Paneli Cynllunio Strategol ym

maes cynllunio defnydd tir, a Chyd-awdurdodau Trafnidiaeth ym maes trafndiaeth. Byddai Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn y meysydd hyn yn ceisio atgyfnerthu dulliau gweithredu er mwyn darparu ar gyfer cydweithio rhanbarthol mwy syml a chyson.

## **Diben y Darpariaethau a'r Effaith y Bwriedir Iddynt ei Chael**

4.9 Diben y Rheoliadau hyn yw sefydlu'r CBCau a ganlyn ledled Cymru:

- CBC Gogledd Cymru
- CBC Canolbarth Cymru
- CBC De-orllewin Cymru
- CBC De-ddwyrain Cymru

4.10 Mae'r Ddeddf yn caniatáu ar gyfer hyblygrwydd o ran yr ardaloedd y mae CBCau yn eu cwmpasu, ac mae'r Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol wedi gweithio gydag arweinwyr llywodraeth leol i ddeall y patrwm y maent yn ei ddymuno ar gyfer y set gyntaf hon o Reoliadau sefydlu. Ysgrifennodd arweinwyr grŵp gwleidyddol Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru at y Gweinidog ym mis Mawrth 2020 i nodi safbwynt llywodraeth leol y dylid seilio patrwm y CBCau arfaethedig ar ardaloedd y bargeinion dinas a'r bargeinion twf sydd eisoes wedi eu sefydlu.

4.11 Felly, yn unol â'r safbwynt hwn a fynegwyd gan arweinwyr llywodraeth leol, mae Rheoliadau Sefydlu CBC yn sefydlu pedwar CBC ar gyfer y pedair rhan o Gymru ar yr un patrwm, gan gynnwys yr un prif gynghorau, â threfniadau'r bargeinion dinas a'r bargeinion twf sydd eisoes wedi eu sefydlu, fel y nodir yn y tabl isod:

<b>Ardal CBC</b>	<b>Y Prif Gynghorau</b>
Canolbarth Cymru	Cyngor Sir Ceredigion Cyngor Sir Powys
De-orllewin Cymru	Cyngor Sir Caerfyrddin Cyngor Sir Penfro Cyngor Abertawe Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot
Gogledd Cymru	Cyngor Sir Ynys Môn Cyngor Gwynedd Cyngor Sir Ddinbych Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy Cyngor Sir y Fflint Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
De-ddwyrain Cymru	Cyngor Caerdydd Cyngor Bro Morgannwg Cyngor Sir Fynwy Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf Cyngor Dinas Casnewydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

- 4.12 Mae'r rheoliadau yn creu'r trefniadau angenrheidiol i sefydlu'r CBC i arfer swyddogaethau mewn perthynas â chynllunio datblygu strategol a chynllunio trafniadaeth rhanbarthol; bydd modd iddo hefyd wneud pethau i hybu lles economaidd ei ardal.
- 4.13 Ochr yn ochr â'r rheoliadau sy'n sefydlu pob CBC bydd set o reoliadau ac is-ddeddfwriaeth arall a fydd yn gymwys yn gyffredinol i bob CBC ac yn nodi'r fframwaith deddfwriaethol ehangach y byddant yn gweithredu ynddo. Bydd Rheoliadau Cymhwyso Cyffredinol o'r fath yn angenrheidiol i helpu i weithredu'r Rheoliadau Sefydlu CBC.
- 4.14 Bydd y Rheoliadau Sefydlu CBCau hyn, ynghyd â'r rheoliadau cyffredinol, gyda'i gilydd yn cyflawni'r bwriad polisi i sefydlu'r CBC a'i drin fel aelod o'r 'teulu llywodraeth leol'. Cafodd y dull gweithredu hwn gefnogaeth eang gan y rheini a ymatebodd i'r ymgynghoriad ar y Rheoliadau Sefydlu CBCau a gynhaliwyd rhwng 12 Hydref 2020 a 4 Ionawr 2021.
- 4.15 Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol felly wedi rhagdybio y bydd y rheoliadau hyn, ar y cyd â'r rheoliadau cyffredinol, yn gwneud y CBC yn ddarostyngedig i raddau helaeth i'r un pwerau a dyletswyddau ag awdurdodau lleol, neu bwerau a dyletswyddau sy'n debyg i rai awdurdodau lleol, o ran y ffordd y maent yn gweithredu. Y bwriad yw y bydd y rheoliadau gyda'i gilydd, ar ôl iddynt gael eu gwneud, yn galluogi CBC i wneud y canlynol er enghraifft:
- Cyflogi pobl (yn uniongyrchol, ar fenthyg neu drwy secondiadau)

- Caffael / comisiynu gwasanaethau
- Ymrwymo i gontractau / cytundebau lefel gwasanaeth / memoranda cyd-ddealltwriaeth
- Dal cronfeydd ariannol / cyllidebau, talu grantiau (gan gynnwys dal cyllidebau / cronfeydd ariannol ar ran Llywodraeth Cymru, gan ddefnyddio'r cronfeydd hynny ar gyfer gweithgarwch uniongyrchol pan fo hynny o fewn cymhwysedd, a'u dosbarthu i drydydd partion)
- Caffael, derbyn, dal, gwaredu a rheoli asedau, tir etc
- Bod yn rhan o gwmnïau
- Cydweithredu ag eraill, gan gynnwys y prif gynghorau cyfansoddol
- Cael cymorth o ran cyflawni ei swyddogaethau / cyflawni ei swyddogaethau drwy eraill, gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, un neu ragor o'r prif gynghorau cyfansoddol
- Cyflawni ei swyddogaethau drwy gyrrff eraill, pobl eraill neu staff eraill
- Dwyn achosion cyfreithiol
- Cael / dal yswiriant (i indemnio ei hun, ei aelodau a'i staff)
- Ad-dalu treuliau.

4.16 O ran y meysydd swyddogaeth y bydd y CBCau yn gweithredu ynddynt neu'n gyfrifol amdanynt, diben y Rheoliadau hyn yw breinio'r swyddogaethau a ganlyn yn y CBCau:

- Llundio, monitro, adolygu a diwygio Cynlluniau Datblygu Strategol, yn ogystal â'r gofyniad i Gynlluniau Datblygu Strategol gydymffurfio yn gyffredinol â'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol fel y nodir yn Neddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004.
- Datblygu Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol. Bydd yn ofynnol i bob CBC Iunio Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn lle'r cynlluniau trafndiaeth lleol sy'n cael eu llunio gan awdurdodau lleol unigol o dan Ddeddf Trafnidiaeth 2000.
- Y swyddogaeth lles economaidd fel y darperir ar ei chyfer o dan Ran 5 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, sef y pŵer i wneud unrhyw beth y mae'n ystyried ei fod yn debygol o hybu neu wella lles economaidd ei ardal.

## 5. Ymgynghori

5.1 Fel yr amlinellwyd yn adran 4, datblygwyd y cynigion ar gyfer CBCau yn dilyn ymgynghori ac ymgysylltu helaeth â chyrrff llywodraeth leol.

5.2 Mae'r Rheoliadau sy'n sefydlu CBCau wedi eu datblygu ar y cyd â chyrrff llywodraeth leol drwy Is-grŵp Llywodraeth Leol Cyngor Partneriaeth Cymru ynghyd â thrafodaethau ag amryw o grwpiau rhanddeiliaid presennol, gan gynnwys:

- Cyfreithwyr Llywodraeth Leol
- Cymdeithas Trysoryddion Cymru
- Rhwydwaith Cyfarwyddwyr Adnoddau Dynol Llywodraeth Leol
- Cymdeithas Prif Weithredwyr ac Uwch-reolwyr Awdurdodau Lleol Cymru

- Trefniadau cydweithio rhanbarthol presennol.

5.3 Roedd y Rheoliadau Sefydlu CBC drafft a'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol drafft cysylltiedig yn destun ymgynghoriad ffurfiol 12 wythnos. Mae'r holl ymatebion perthnasol wedi cael eu hystyried wrth gwblhau'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn i gyd-fynd â'r Rheoliadau Sefydlu CBC. Mae copi o'r ymateb i'r ymgynghoriad ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru<sup>1</sup>.

---

<sup>1</sup> [Ymateb I'r Ymgynghoriad](#)

## RHAN 2 – ASESIAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL (RIA)

### Y cefndir

1. Sefydlwyd agenda gyffredin ar gyfer diwygio gan y Gweithgor Llywodraeth Leol<sup>2</sup> gyda'r nod o alluogi llywodraeth leol i ddarparu gwasanaethau cynaliadwy yn y dyfodol.
2. Un o gasgliadau allweddol y Gweithgor oedd cytuno bod angen dull newydd o gefnogi cydweithio a chydweithredu rhanbarthol.
3. Mewn ymateb i argymhellion y Gweithgor, cafodd Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) ei gyflwyno i'r Senedd ym mis Tachwedd 2019 ac roedd yn cynnwys darpariaethau i greu dull cyson ar gyfer cydweithredu rhanbarthol rhwng prif gynghorau, sef Cyd-bwyllgorau Corfforedig (CBCau). Roedd darpariaethau'r Bil hefyd yn adlewyrchu gwaith ymgysylltu parhaus â llywodraeth leol yn dilyn cyhoeddi argymhellion y Gweithgor. Derbyniodd Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (y Ddeddf) Gydsyniad Brenhinol ar 20 Ionawr 2021.
4. Bydd CBC yn 'gorff corfforedig' sy'n meddu ar bersonoliaeth gyfreithiol ac felly'n gallu cyflogi staff yn uniongyrchol, a dal asedau a chyllid. Bydd swyddogaethau yn cael eu breinio ynddo a allai gynnwys cyfrifoldeb am swyddogaethau mewn un maes gwasanaeth neu faint bynnag o feysydd gwasanaeth ag oedd yn berthnasol o dan amgylchiadau penodol.
5. Mae'r Ddeddf yn galluogi dwy ffordd o sefydlu CBCau:
  - caiff dau neu ragor o brif gynghorau wneud cais i sefydlu CBCau (mewn perthynas ag unrhyw swyddogaeth y maent yn ei harfer)
  - caiff Gweinidogion Cymru ddechrau'r broses o sefydlu CBC (mewn perthynas â nifer o swyddogaethau cyfyngedig a phenodedig a nodir yn y Ddeddf).
6. Fel y nodir yn adran 4 o Ran 1, mae pedwar CBC yn cael eu sefydlu, yn seiliedig ar batrymau presennol bargaenion dinesig neu fargaenion twf, sef Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, Dinas-Ranbarth Bae Abertawe, y Gogledd a'r Canolbarth. Mae hyn yn unol â'r Egwyddorion Cydweithredu a gytunwyd drwy'r Gweithgor y dylid ystyried trefniadau cydweithredu presennol.
7. Mae'r Rheoliadau Sefydlu hyn yn cael eu gwneud drwy'r ail ffordd – i greu CBCau sy'n arfer swyddogaethau trafndiaeth penodol; yn ymgymryd â chynlluniau datblygu strategol; ac yn gallu hybu datblygu economaidd yn eu hardaloedd.
8. Bydd y rheoliadau hyn yn sefydlu'r CBCau, ac yn nodi manylion eu swyddogaethau, eu trefniadau llywodraethiant, eu trefniadau gweithredu a manylion angenrheidiol eraill.

---

<sup>2</sup> Gweler paragraffau 4.1 i 4.5 o Ran 1 o'r ddogfen hon



9. Datblygwyd y rheoliadau hyn ar y cyd â chyrrff llywodraeth leol, gan gynnwys Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Is-grŵp Llywodraeth Leol Cyngor Partneriaeth Cymru a chynrychiolwyr Cymdeithas Trysoryddion Cymru a Chyfreithwyr Llywodraeth Leol.
10. Er y derbynnir y bydd rhai costau yn gysylltiedig â sefydlu'r CBCau, sef costau sy'n cael eu hystyried yn yr RIA hwn, mae CBC yn cynnig cyfle i gydweithredu er mwyn gwneud pethau mewn ffordd wahanol, gan ddefnyddio adnoddau presennol i gyflawni swyddogaethau ar y cyd. Wrth i CBC ddatblygu dros yr hirdymor, bydd cyfleoedd hefyd i nodi arbedion effeithlonrwydd a gwella effeithiolrwydd.

## **Y dull gweithredu a fabwysiadwyd o ran asesu'r effaith**

11. Mae'r RIA hwn yn asesu'r costau a'r manteision posibl sy'n gysylltiedig â sefydlu'r CBCau a amlinellir yn adran 4 o Ran 1 drwy reoliadau. Wrth asesu'r costau a'r manteision posibl mae'r RIA yn ystyried y bwriad polisi cyffredinol y dylid trin CBCau fel rhan o'r 'teulu llywodraeth leol'. Mae hefyd yn ystyried y dull ar gyfer datblygu'r Rheoliadau a amlinellir yn Adran 4 o Ran 1.
12. Yr opsiynau sydd wedi eu hystyried wrth lunio'r RIA drafft hwn yw:
  - Opsiwn 1 – Gwneud dim. Ni weithredir y polisi, felly ni chaiff CBCau eu sefydlu
  - Opsiwn 2 – Gweithredu'r polisi a sefydlu CBCau
13. Mae'r ddau opsiwn wedi eu hasesu gan ddefnyddio'r wybodaeth orau a oedd ar gael i Lywodraeth Cymru ar adeg cwblhau'r RIA hwn. Gan ei fod yn ddewis rhwng naill ai gweithredu'r polisi neu beidio, nid ydym wedi ystyried trydydd opsiwn. Caiff y costau a'r manteision yn yr RIA hwn eu cyfrifo ar sail amcangyfrifon a chyfartaleddau Cymru gyfan. Wrth lunio'r RIA, mewn rhai achosion roedd angen llunio ystod bosibl o gostau opsiynau / amcangyfrifon. Ar gyfer opsiwn 1 ac opsiwn 2, mae hyn yn dangos y byddai costau terfynol pob opsiwn yn dibynnu'n sylweddol ar lywodraethiant unigol a'r penderfyniadau gweithredol a wneir gan y prif gynghorau cyfansoddol neu'r CBCau; a bod y rhanbarthau'n cynrychioli nifer wahanol o awdurdodau a gwahanol ddaearyddiaeth. Ym mhob achos isod mae'r RIA yn nodi'r rhagdybiaethau ar gyfer datblygu'r ystod o gostau a ddangosir, ac yn ceisio nodi isafswm neu uchafswm costau posibl ar gyfer yr opsiynau perthnasol.
14. Mae costau'r ddau opsiwn wedi eu hasesu ar wahân, ac mae cymhariaeth o'r costau wedi ei chynnwys fel crynodeb sy'n dangos y gwahaniaeth rhwng costau'r ddau opsiwn.
15. Er mwyn hwyluso datblygiad yr RIA, comisiynodd Llywodraeth Cymru waith ymchwil annibynnol ar drefniadau cydweithredu tebyg neu

gymharol<sup>3</sup>. Gwnaed hynny yn rhannol er mwyn cadarnhau pa un a oedd yn bosibl sefydlu sylfaen gostau ar gyfer datblygu trefniadau cydweithredu megis CBCau drwy gymharu achosion eraill o gydweithredu gan brif gynghorau.

16. Mae'r gwaith ymchwil annibynnol wedi dangos bod amrywiad sylweddol o ran costau ymhlith y trefniadau cydweithredu a ystyriwyd, gan gynnwys, er enghraifft, y rhai sydd â'r un sail statudol.

17. Nododd yr adroddiad:

*'Much of this variation would appear to depend on; the scale, scope and ambition of the collaboration arrangement; the individual decisions made within each collaboration on governance, management and staffing structures; and the functions they deliver and how they chose to implement those functions.'*

18. Daeth yr adroddiad i'r casgliad:

*'It is not possible therefore to provide a single cost estimate / basis for collaboration concluding that a range of costs based on some of the above variables is more likely.'*

19. Bydd sut mae CBC yn gweithredu yn fater i'w benderfynu gan ei aelodau i raddau helaeth. Caiff nifer bach o faterion eu rhagnodi mewn naill ai ddeddfwriaeth sylfaenol neu is-ddeddfwriaeth, ond mae'r Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol wedi datgan yn glir mai'r nod yw sicrhau'r disgrisiwn lleol mwyaf posibl o ran trefniadau gweithredu CBC. Gan hynny, egwyddor sylfaenol y Rheoliadau sy'n sefydlu CBCau yw y dylent alluogi gwneud penderfyniadau lleol pan fo'n bosibl.

20. Yn unol â chasgliadau'r gwaith ymchwil annibynnol, wrth sefydlu CBCau, caiff y sylfaen gostau ei phenderfynu yn ymarferol gan benderfyniadau unigol a wneir gan y CBC ynghylch sut mae'n dymuno gweithredu. Nid yw'r RIA drafft yn ceisio rhagdybio'r penderfyniadau hynny na gwneud y penderfyniadau hynny ymlaen llaw.

21. Fodd bynnag, er ei fod yn adlewyrchu'r disgrisiwn lleol hwn o ran y trefniadau llywodraethiant a chyflenwi, mae'n bwysig bod yr RIA, yn unol â'r gwaith ymchwil, yn cyflwyno ystod o gostau a amcangyfrifir (ystod yr uchafswm a'r isafswm posibl) sy'n rhoi syniad o'r costau posibl sy'n gysylltiedig â'r trefniadau gweinyddol y gallai CBCau eu rhoi ar waith. Mae'n bwysig nodi, wrth gyflwyno'r costau yn y ffordd hon a'r rhagdybiaethau sy'n sail i'r amcangyfrifon, na fwriedir disgrifio'r trefniadau y dylai CBC eu rhoi ar waith, ond yn hytrach ddangos costau'r opsiynau posibl sydd ar gael i CBC.

---

<sup>3</sup> [Adroddiad ar gydweithrediad rhwng awdurdodau lleol yng Nghymru](#)

22. Mewn rhai achosion, gan ystyried y dyletswyddau ar brif gynghorau i ystyried effeithlonrwydd wrth ddefnyddio arian cyhoeddus, gwnaed rhagdybiaethau sy'n cyfyngu ar faint y gofynion o ran costau. Nodir y rhesymau am hyn yn yr adrannau perthnasol.
23. Mae'r RIA yn canolbwyntio ar gostau gweinyddol craidd sefydlu a gweithredu CBC. Oherwydd y disgresiwn lleol o ran rhedeg CBC, ni fu'n bosibl asesu'r holl gostau posibl yn derfynol, yn enwedig y costau i'r holl randdeiliaid, ond disgwylir i CBCau ystyried y costau, y manteision a'r effeithiau ar wahanol randdeiliaid cyn gweithredu.
24. Drwy'r RIA hwn, mae'r costau a'r manteision wedi eu hamcangyfrif ar sail flynyddol, ac yna wedi eu cyfrifo dros gyfnod o chwe blynedd. Gwneir hyn ar sail caniatáu blwyddyn i CBCau roi eu trefniadau ar waith, yn dilyn gwneud y Rheoliadau CBC yn 2021, ac i CBCau weithredu am gyfnod llawn o bum mlynedd yn dilyn etholiadau'r prif gynghorau ym mis Mai 2022.
25. Cyfrifwyd ffigurau'r flwyddyn gyntaf i adlewyrchu'r gwaith sy'n gysylltiedig â sefydlu CBC (sef y costau sefydlu cychwynnol a'r costau rhedeg cynnar). Gall hyn gynnwys rhai o'r costau sy'n ymwneud â rheoliadau a chanllawiau, ac mae'n bosibl yr aethpwyd i'r costau hynny eisoes. Ar ôl ei sefydlu, disgwylir i gostau gweithredu CBC gynyddu wrth i'r CBC gael ei sefydlu ac wrth ymgymryd â'r swyddogaethau a freinir ynddo. Fodd bynnag, fel rhan o'r RIA rhagdybir, ar sail y swyddogaethau sydd i'w trosglwyddo fel rhan o'r Rheoliadau hyn, y bydd costau wedi sefydluogi erbyn diwedd y cyfnod y cyfeirir ato yn yr RIA. Dylid nodi y bydd hyn yn dibynnu ar benderfyniadau unigol a wneir gan y CBC, ac nid yw'n ystyried unrhyw benderfyniadau neu gamau gweithredu sy'n gysylltiedig ag arfer pwerau datblygu economaidd ar lefel ranbarthol, er enghraifft.
26. Mae costau staff yn seiliedig ar raddfeydd cyflog sy'n is na'r uchafswm, ac yn seiliedig ar flwyddyn 52 wythnos a phum diwrnod gwaith yr wythnos. Mae costau staff yn cynnwys gwyliau blynyddol a gwyliau cyhoeddus.
27. Mae costau staff Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar gostau'r band cyflog cyfartalog ar gyfer 2019-20, ac yn seiliedig ar flwyddyn 52 wythnos a phum diwrnod gwaith yr wythnos. Ystyrir bod yr wythnos waith safonol yn 37 awr yr wythnos yn unol â 'Llyfr Gwyrdd' y Cytundeb Cenedlaethol. Mae costau staff yn cynnwys argostau. Rydym wedi defnyddio'r un dull gweithredu ar gyfer costau staff llywodraeth leol, ac yn y rhan fwyaf o achosion rydym wedi nodi graddfa gyflog Llywodraeth Cymru briodol ac wedi mapio hynny ar draws i'r pwynt cyflog priodol ar gytundeb Ebrill 2018-20 y Cyd-gyngor Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Llywodraeth Leol.
28. Mewn achosion lle rydym wedi defnyddio ffigurau hanesyddol sy'n ymwneud â phrosiectau neu wariant y llywodraeth, rydym wedi

defnyddio'r datchwyddydd cynnyrch domestig gros i uwchraddio costau 'hanesyddol' i'r prisiau cyfredol er mwyn caniatáu ar gyfer chwyddiant.

29. Mae'r ffigurau wedi eu talgrynnu yn yr RIA drwyddo draw i'r can bunt agosaf ar gyfer y cyfrifiadau perthnasol. Mewn rhai tablau, mae'n bosibl na fydd cyfanswm y rhesi a'r colofnau yn cyfateb i'r golofn cyfanswm oherwydd y broses dalgrynnu hon. Dylid trin yr holl ffigurau fel amcangyfrifon.
30. Mae rhagor o gyfrifiadau manwl a rhagdybiaethau ategol ar gael yn Atodiad A.

## 6. Opsiynau

### Opsiwn 1 – Gwneud Dim

31. Byddai'r opsiwn 'gwneud dim' yn golygu na fyddai'r Rheoliadau sy'n sefydlu CBCau yn cael eu gwneud. Fodd bynnag, ni fyddai hynny'n golygu na fyddai cydweithio rhanbarthol o ryw fath neu'i gilydd yn parhau. Byddai'r gweithgarwch rhanbarthol presennol neu arfaethedig ar gyfer y tri maes swyddogaeth arfaethedig ar gyfer y CBCau (**Trafnidiaeth, Cynllunio Datblygu Strategol, a Datblygu Economaidd**) yn parhau. Felly wrth ystyried costau a manteision yr opsiwn 'gwneud dim' rydym hefyd wedi ystyried costau parhau â'r dull gweithredu presennol a'r dull y darparwyd ar ei gyfer yn flaenorol o ran cydweithio rhanbarthol fel rhan o'r sefyllfa bresennol.

#### Datblygu Economaidd

32. Ar hyn o bryd mae cydweithredu o ran datblygu economaidd yn cael ei arwain i raddau helaeth gan lywodraeth leol drwy drefniadau cyd-bwyllgorau ar lefel ranbarthol. Mae pob rhanbarth naill ai wedi cytuno i Fargeinion Dinas neu Fargeinion Twf ar gyfer eu rhanbarthau, neu'n cynnig ac yn datblygu bargeinion o'r fath. Mae gan y rhanbarthau hynny a rhanbarthau'r CBCau yr un ffiniau. I raddau helaeth mae'r trefniadau rhanbarthol hyn ar ffurf grŵp 'gweithredol' o arweinwyr a phrif weithredwyr, gyda nifer o is-grwpiau a arweinir gan aelodau neu swyddogion yn cefnogi eu gwaith. Mae'r dull gweithredu bargeinion dinas a bargeinion twf yn seiliedig ar bob rhanbarth yn nodi ac yn mabwysiadu cynllun strategol hirdymor ar gyfer datblygiad economaidd parhaol y rhanbarth. Mae rhaglen fuddsoddi cyfalaf 15 neu 20 mlynedd a gynllunnir gan y rhanbarth ac a gefnogir â chyllid llywodraeth leol, y llywodraeth, y sector cyhoeddus a'r sector preifat yn sail i bob bargaen (neu'n bwriadu bod yn sail iddynt). Mae'r bargeinion hefyd yn cynnwys dull gweithredu integredig o ran defnydd tir a chynllunio trafndiaeth.

## Cynllunio Datblygu Strategol

33. O dan Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004, fel y'i mewnosodir gan Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015, caiff Awdurdodau Cynllunio Lleol (gan gynnwys Awdurdodau Parciau Cenedlaethol) gyflwyno cynigion i sefydlu Paneli Cynllunio Strategol at ddiben llunio Cynllun Datblygu Strategol. Os nad oes unrhyw gynigion yn cael eu cyflwyno, caiff Gweinidogion Cymru hefyd ddynodi ardal cynllunio strategol a sefydlu Panel Cynllunio Strategol at ddiben llunio Cynllun Datblygu Strategol. Byddai'r Panel Cynllunio Strategol yn strwythur llywodraethu rhanbarthol pwrpasol newydd a sefydlir yn unswydd at ddiben llunio Cynllun Datblygu Strategol.
34. Pan fo dau neu ragor o Awdurdodau Cynllunio Lleol yn cyflwyno cynnig ar gyfer Cynllun Datblygu Strategol byddai Gweinidogion Cymru yn gwneud gorchymyn yn dynodi'r ardal cynllunio strategol a sefydlu'r Panel Cynllunio Strategol.
35. Er bod Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn diddymu'r ddeddfwriaeth berthnasol sy'n ymwneud â Phaneli Cynllunio Strategol, pe na bai'r drefn CBCau yn cael ei mabwysiadu ar gyfer cydweithio rhanbarthol, byddai'r dull gweithredu Paneli Cynllunio Strategol wedi parhau. Gan hynny, wrth ystyried yr opsiwn 'gwneud dim' rydym wedi ystyried costau ymgymryd â Chynlluniau Datblygu Strategol fel yr amlinellir yn RIA Deddf Cynllunio (Cymru)<sup>4</sup>. Gweler RIA Deddf Cynllunio (Cymru) i weld ffynhonnell y data ar gyfer costau Cynllun Datblygu Strategol.
36. Mae'r trefniadau rhanbarthol o dan y Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol yn rhai gwirfoddol, a gall fod yn bosibl i Awdurdodau Cynllunio Lleol barhau â'r dull gweithredu presennol o lunio Cynlluniau Datblygu Lleol unigol pan na fo'r dull gweithredu Cynllun Datblygu Strategol yn cael ei fabwysiadu. Derbynnir felly na fyddai'r costau hyn, o dan ddull gwirfoddol Paneli Cynllunio Strategol, o bosibl wedi cael eu hysgwyo, fodd bynnag byddai pwyslais newydd wedi bod ar eu sefydlu yng ngoleuni'r pwyslais ar gynllunio rhanbarthol yn y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol. Diben cyflwyno'r Cynlluniau Datblygu Strategol drwy Ddeddf Cynllunio (Cymru) oedd caniatáu dull gweithredu mwy strategol ar raddfa y tu hwnt i'r Cynlluniau Datblygu Lleol. Nid ydym wedi ystyried costau / manteision Cynlluniau Datblygu Lleol o'u cymharu â Chynlluniau Datblygu Strategol fel rhan o'r ddogfen hon, ond cafodd costau o'r fath eu hystyried fel rhan o RIA Deddf Cynllunio (Cymru).

## Trafnidiaeth

37. Ym mis Rhagfyr 2018 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru nifer o gynigion deddfwriaethol yn ei Bapur Gwyn ar Wella Trafnidiaeth Gyhoeddus. Un o gynigion y Papur Gwyn oedd sefydlu Cyd-awdurdodau Trafnidiaeth, o

---

<sup>4</sup> [Deddf Cynllunio \(Cymru\) – Memorandwm Esboniadol](#) & [Bil Cynllunio \(Cymru\) - Papur Methodoleg yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol](#)

dan ddarpariaethau Deddf Trafnidiaeth 2006. Y bwriad oedd y gallai'r Cyd-awdurdodau Trafnidiaeth ddatblygu dull gweithredu rhanbarthol penodol o fewn cyd-destun cenedlaethol ehangach ar gyfer cynllunio trafndiaeth a gweithredu'r cynlluniau hynny. Gallai Cyd-awdurdod Trafnidiaeth fod yn gyfrifol am ystod o swyddogaethau trafndiaeth gyhoeddus, yn ogystal â rhai swyddogaethau rheoli traffig penodol (er enghraifft, y gallu i wneud Gorchmynion Rheoleiddio Traffig ar gyfer mesurau sy'n rhoi'r flaenoriaeth i fysiau).

38. Er bod Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn diddymu'r darpariaethau perthnasol yn Neddf Trafnidiaeth 2006 o ran Cyd-awdurdodau Trafnidiaeth, os nad yw'r drefn CBCau arfaethedig yn cael ei mabwysiadu, y bwriad polisi fyddai parhau i sefydlu'r Cyd-awdurdodau Trafnidiaeth fel y dull rhanbarthol ar gyfer cyflawni swyddogaethau trafndiaeth.

## **Opsiwn 2 – Gweithredu'r Polisi a Sefydlu CBCau**

39. Bydd Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn galluogi creu Cyd-bwyllgorau Corfforedig drwy reoliadau. Bydd y CBCau hyn yn 'gyrff corfforedig', a sefydlir mewn statud, a fydd yn eu galluogi i gael swyddogaethau wedi eu breinio ynddynt, cyflogi staff yn uniongyrchol, dal asedau a rheoli cyllid. Mae'r Ddeddf yn caniatáu sefydlu CBCau drwy reoliadau gan Weinidogion Cymru, naill ai ar gais dau neu ragor o'r prif gynghorau neu, ar gyfer nifer cyfyngedig o swyddogaethau a bennir yn y Ddeddf, ar archiad Gweinidogion Cymru.
40. Y meysydd lle caiff Gweinidogion Cymru gychwyn y broses o sefydlu CBC yw trafndiaeth, datblygu economaidd, cynllunio strategol ar gyfer datblygu a defnyddio tir, a gwella addysg. Ar ôl eu sefydlu, bydd CBCau yn arfer y swyddogaethau a bennir mewn rheoliadau.

## **7. Costau a Manteision**

### **Opsiwn 1 – Gwneud Dim**

41. Fel yr amlinellwyd uchod, er mai parhau â'r sefyllfa bresennol yw'r opsiwn hwn, nid yw'n niwtral o ran costau. Os nad yw CBCau yn cael eu sefydlu, mae'n debygol y bydd y trefniadau rhanbarthol presennol neu arfaethedig yn parhau, felly rhaid ystyried costau posibl trefniadau ar wahân hyn fel rhan o'r opsiwn 'Gwneud dim'.
42. Yn unol â'r dull gweithredu, mae'r amcangyfrifon ar gyfer Opsiwn 1 yn nodi'r rhagdybiaethau ar gyfer datblygu'r costau, ac mewn rhai achosion cyflwynir ystod o gostau sy'n seiliedig ar isafswm neu uchafswm.
43. Nodwyd bod costau 'gwneud dim' neu gynnal y sefyllfa bresennol o dan Opsiwn 1 dros y cyfnod o chwe blynedd o dan sylw'r RIA hwn rhwng £10.2 miliwn a £16.2 miliwn. Dangosir y costau hyn ar sail flynyddol yn y tabl isod. Mae'r RIA yn tybio y byddai'r trefniadau statudol arfaethedig ar

drafnidiaeth a'r cwmpas ar gyfer trefniadau gwirfoddol ar gynllunio wedi cael eu rhoi yn eu lle. Tybir hefyd y byddai'r trefniadau ar gyfer cydweithio rhanbarthol o dan y Fargen Ddinesig / y Fargen Werdd yn parhau. Yna mae'r RIA yn cyflwyno cyfrifiadau a rhagdybiaethau manwl pellach sy'n sail i'r costau Opsiwn 1 hyn. Mae gwerthusiad o gostau Opsiwn 1 ac Opsiwn 2 wedi ei gynnwys ar ddiwedd y bennod hon.

**Tabl 1: Crynodeb o Opsiwn 1**

<b>Blwyddyn</b>	<b>Yr Amcangyfrif Isaf</b>	<b>Yr Amcangyfrif Uchaf</b>
Blwyddyn 1	£201,600	£1,279,000
Blwyddyn 2	£2,144,500	£3,141,300
Blwyddyn 3	£2,144,500	£3,141,300
Blwyddyn 4	£1,894,500	£2,891,300
Blwyddyn 5	£1,894,500	£2,891,300
Blwyddyn 6	£1,894,500	£2,891,300
	<b>£10,174,100</b>	<b>£16,235,500</b>

## **Costau i Awdurdodau Lleol**

### Datblygu Economaidd

44. Mae buddsoddi mewn datblygu economaidd gan brif gynghorau yn amrywio o gyngor i gyngor ar hyn o bryd. Ceir cymysgedd o fuddsoddi lleol a gweithgarwch rhanbarthol. I raddau helaeth mae'r buddsoddiadau rhanbarthol o dan nawdd trefniadau bargeinion dinas a bargeinion twf, neu'r byrddau perthnasol sy'n goruchwyllo'r bargeinion hynny. Rhagdybir y bydd y trefniadau hyn yn parhau o dan Opsiwn 1 'gwneud dim'. Mae gan ardaloedd y bargeinion dinas a'r bargeinion twf yr un ffiniau â rhanbarthau'r CBCau arfaethedig.
45. At ddibenion yr RIA hwn, nid ydym wedi ystyried costau gweithgarwch a gyflawnir ar lefel ranbarthol ar hyn o bryd, er enghraifft drwy'r bargeinion dinas a'r bargeinion twf eu hunain (megis prosiectau unigol). Fodd bynnag, rydym wedi ystyried costau gweinyddu'r trefniadau rhanbarthol sy'n rhan o'r bargeinion dinas a'r bargeinion twf sy'n cefnogi'r gweithgarwch hwn. Y bwriad polisi o ran datblygu CBCau yw y bydd y trefniadau rhanbarthol presennol o dan y bargeinion dinas a'r bargeinion twf yn symud ar draws i'r CBC, er cydnabyddir y bydd hyn yn dibynnu ar ddymuniadau'r CBC a'r priif gynghorau cyfansoddol. Gan hynny, mae'r RIA hwn yn rhagdybio bod costau'r trefniadau rhanbarthol presennol yn brocsi rhesymol i'w ddefnyddio yn yr RIA hwn. Er hynny, nodir mewn rhai achosion ei bod yn bosibl nad yw'r bargeinion yn adlewyrchu ystod lawn y gweithgarwch ar lefel ranbarthol, ac felly gall costau ychwanegol fodoli nad ydynt wedi eu nodi yma. Dylid nodi hefyd er bod costau'r bargeinion wedi'u nodi yma fel costau i awdurdodau lleol, mewn rhai achosion, neu ym mhob achos, gallant gael eu talu gan y trefniadau cyllido o fewn y bargeinion eu hunain (h.y. gan Lywodraeth Cymru neu Lywodraeth y DU). Er hwylustod, rydym wedi'u dangos fel costau awdurdodau lleol.

46. Mae'r costau yn Nhabl 2 isod yn adlewyrchu costau gweithredol cyhoeddedig y bargeinion dinas a bargeinion twf presennol (data 2018/19). Mae hyn yn cynnwys costau megis swyddfa reoli'r rhaglen, craffu ar drefniadau rhanbarthol a gwariant y corff atebol. Mae'n glir nad yw'r costau hyn yn dilyn patrwm sefydlog fesul rhanbarth ac maent yn cynrychioli ystod o gostau sy'n seiliedig ar benderfyniadau a threfniadau pob rhanbarth.

**Tabl 2: Costau gweithredol cyhoeddedig bargeinion dinas a bargeinion twf yng Nghymru**

Prosiect Unigol	Cyfanswm	Ffynhonnell
Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd	£1,160,000	<a href="#">Dolen</a>
Bargen Ddinesig Bae Abertawe	£471,300	<a href="#">Dolen</a>
Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru	£441,100	<a href="#">Dolen</a>
Partneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru	Llofnodwyd Cytundeb rhwng Cyngorau Sir Powys a Cheredigion, fodd bynnag, ni chyhoeddwyd unrhyw gyfrifon / nid oes unrhyw gyfrifon ar gael	

47. Y costau gweithredu blynyddol cyfartalog a amcangyfrifir ar gyfer y tair bargen a lofnodwyd yw £690,800. At ddibenion yr RIA hwn, byddwn yn defnyddio'r ffigur hwn fel procsi ar gyfer costau blynyddol cynnal y trefniadau rhanbarthol presennol ar gyfer datblygu economaidd o dan Opsiwn 1. Yn yr un modd â rhannau eraill o'r RIA hwn, cydnabyddir y gall costau o'r fath gynyddu neu leihau, gan ddibynnu ar faint y trefniadau, a'r penderfyniadau unigol a wneir gan bartneriaid ar lefel ranbarthol.

### Cynllunio Datblygu Strategol

48. Roedd RIA Deddf Cynllunio (Cymru)<sup>5</sup> wedi edrych yn fanwl ar y costau sy'n gysylltiedig â datblygu Cynlluniau Datblygu Strategol drwy Banel Cynllunio Strategol. Fel y nodwyd uchod, nid ydym wedi ystyried costau a manteision Cynlluniau Datblygu Lleol o'u cymharu â Chynlluniau Datblygu Strategol fel rhan o'r ddogfen hon, fodd bynnag, ystyriwyd y costau hynny fel rhan o RIA Deddf Cynllunio (Cymru). Er bod costau'r Cynlluniau Datblygu Strategol wedi eu cynnwys yn yr RIA hwn, ni fwriedir awgrymu bod cost y broses Cynllun Datblygu Strategol yn gost ychwanegol ar ben y prosesau cynllunio cyfredol. Rhoddwyd ystyriaeth i gyd-destun cyffredinol Cynlluniau Datblygu Strategol yn RIA Deddf Cynllunio (Cymru). Fodd bynnag, drwy ddefnyddio'r wybodaeth am Gynlluniau Datblygu Strategol o RIA Deddf Cynllunio (Cymru) gellir llunio cymhariaeth rhwng model llywodraethiant presennol Paneli Cynllunio Strategol a'r model CBC arfaethedig.

49. Amcangyfrifwyd mai costau cyflwyno Cynlluniau Datblygu Strategol yw £3,500,000<sup>6</sup> fesul ardal Cynllun Datblygu Strategol – gan ddibynnu ar faint yr ardal a nifer yr awdurdodau sydd wedi eu cynnwys. Roedd y

<sup>5</sup> [Deddf Cynllunio \(Cymru\) – Memorandwm Esboniadol](#)

<sup>6</sup> Gwerthoedd 2015



costau hyn yn cynnwys costau staff, costau llywodraethiant (gan gynnwys llywodraethiant Panel Cynllunio Strategol), costau staff arbenigol, costau i gyrff ymgynghori penodol, costau casglu sail dystiolaeth, costau archwilio a chostau argraffu a chyhoeddi. Yn ei ymateb i'r ymgynghoriad ar yr RIA drafft, awgrymodd Archwilydd Cyffredinol Cymru y gallai hyn fod yn is ar sail cynigion blaenorol ar gyfer Cynllun Datblygu Strategol yn cwmpasu Prifddinas-Ranbarth Caerdydd. Fodd bynnag, at ddibenion yr RIA hwn, rydym wedi defnyddio'r ffigurau o RIA Deddf Cynllunio (Cymru).

50. Byddai cymhwyso'r gyfres dachwyddydd Cynnyrch Domestig Gros<sup>7</sup> i uwchraddio costau 'hanesyddol' i brisiau cyfredol yn golygu mai cost cyflwyno Cynlluniau Datblygu Strategol (prisiau 2019) fyddai tua £3,800,000. Mae'n werth nodi yr amcangyfrifwyd costau RIA Deddf Cynllunio (Cymru) ar sail ardal De-ddwyrain Cymru sy'n cynnwys 10 awdurdod lleol, ac felly o ran y pedwar rhanbarth CBC arfaethedig mae'n debygol o fod y gost uchaf, ac mae'r costau yn yr ardaloedd eraill yn debygol o fod yn is na'r enghraifft ddangosol hon.
51. Roedd RIA Deddf Cynllunio (Cymru) wedi rhagdybio cyfnod o 5 mlynedd i lunio Cynllun Datblygu Strategol (gan mai 5 mlynedd yw'r cyfnod a amcangyfrifwyd gan RIA Deddf Cynllunio (Cymru) ar gyfer cyflawni Cynllun Datblygu Strategol a fabwysiedir). Er mwyn sicrhau cysondeb, defnyddir yr un amserlen yn yr RIA hwn. Gan hynny, costau blynyddol llunio Cynllun Datblygu Strategol yw £760,000.
52. Fel y nodwyd yn flaenorol, mae ymgymryd â Chynllun Datblygu Strategol drwy'r Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol yn rhywbeth gwirfoddol pan na fo hynny wedi ei ddynodi gan Weinidogion Cymru. Felly, er ei fod yn rhesymol rhagdybio y gellid mynd i gostau pe bai Awdurdodau Cynllunio Lleol yn dewis cyflwyno cynigion ar gyfer Cynlluniau Datblygu Strategol, nid oes sicrwydd o ran hynny. Cyn datblygu'r cynigion ar gyfer sefydlu'r CBCau, roedd y 10 awdurdod yn rhanbarth y De-ddwyrain yn trafod cyflwyno cais i Lywodraeth Cymru i ddatblygu Cynllun Datblygu Strategol ar gyfer eu rhanbarth. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod nad oedd pob rhanbarth wedi bod yn trafod Cynlluniau Datblygu Strategol yn yr un ffordd. Fodd bynnag, fel rydym eisoes wedi nodi, byddai pwyslais newydd wedi bod ar eu sefydlu yn sgil y pwyslais ar gynllunio rhanbarthol yn y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol.
53. At ddibenion yr RIA drafft hwn ac at ddibenion dangosol, rhagdybiwyd felly y bydd pob rhanbarth yn llunio Cynllun Datblygu Strategol o dan y Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol o dan yr opsiwn 'gwneud dim'. Derbynnir fodd bynnag, pe na fyddai hyn yn digwydd y byddai'r gost sy'n gysylltiedig â'r opsiwn 'gwneud dim' yn is.

---

<sup>7</sup> [Cynnyrch Domestig Gros Mawrth 2020](#)

## Trafnidiaeth

54. Roedd y Papur Gwyn Gwella Trafnidiaeth Gyhoeddus<sup>8</sup> wedi cynnig sefydlu Cyd-awdurdodau Trafnidiaeth i gyflawni swyddogaethau trafndiaeth penodol ar sail ranbarthol. Byddai Cyd-awdurdod Trafnidiaeth yn ddull newydd ar gyfer cydweithio rhanbarthol, gyda'i drefniadau llywodraethiant a'i gyfansoddiad ei hun, a byddai wedi bod yn gorff ar wahân i'r awdurdodau cyfansoddol. Mae'n anodd rhag-weld manylion y trefniadau, ac felly mae'n anodd rhag-weld costau Cyd-awdurdod Trafnidiaeth oherwydd nid oes yr un ohonynt wedi ei sefydlu yng Nghymru hyd yma. Gall fod yn bosibl ystyried y cyd-awdurdodau yn Lloegr sydd â swyddogaethau trafndiaeth, fodd bynnag, yn ein barn ni nid yw'r rhain yn cynnig cymhariaeth gywir o ran maint na'r drefn sydd i'w rhoi ar waith.
55. Byddai Cyd-awdurdod Trafnidiaeth yn cael ei sefydlu fel dull i gyflawni swyddogaethau prif gyngor, yn debyg i'r model CBC arfaethedig – felly dyna pam y cynigir y model CBC yn ei le. Gan hynny, mae'n rhesymol rhagdybio y byddai Cyd-awdurdod Trafnidiaeth wedi ei sefydlu yn yr un ffordd â CBC o ran llywodraethiant a chyfansoddiad, neu mewn ffordd debyg. Gan hynny, at ddibenion yr RIA hwn rydym wedi rhagdybio y byddai costau sefydlu a rhedeg Cyd-awdurdod Trafnidiaeth o dan yr opsiwn 'gwneud dim' wedi bod yn debyg i gostau sefydlu a rhedeg CBC. Fodd bynnag, costau sy'n gysylltiedig â chyflawni swyddogaethau Trafnidiaeth yn unig yr ydym wedi'u cynnwys ac nid costau'r swyddogaethau Datblygu Economaidd neu Gynllunio Strategol.

**Tabl 3 – Costau Swyddogaethau Trafnidiaeth Rhanbarthol drwy Gyd-awdurdod Trafnidiaeth**

<b>Cost</b>	<b>Yr Amcangyfrif Isaf</b>	<b>Yr Amcangyfrif Uchaf</b>
Costau sefydlu CBD o dan Opsiwn 2	£9,974,800	£16,023,600
Y gyfran sy'n ymwneud â Datblygu Economaidd	£3,454,000	£4,144,800
Y gyfran sy'n ymwneud â Swyddogaethau Cynllunio Strategol	£3,607,500	£3,607,500
<b>Costau Cyd-awdurdodau Trafnidiaeth o dan Opsiwn 1</b>	<b>£2,913,300</b>	<b>£8,271,300</b>

## Costau Eraill

56. Mae cost o ran amser arweinwyr ac aelodau prif gynghorau wrth iddynt gefnogi'r trefniadau rhanbarthol hefyd. Yn amlwg, byddai cynnal nifer o fyrddau rhanbarthol ar wahân o dan yr opsiwn 'gwneud dim' yn golygu y byddai arweinwyr a swyddogion prif gynghorau yn treulio amser wrth wasanaethu'r gwahanol drefniadau hynny. Gan hynny mae'n briodol bod yr RIA yn ystyried y gost o ran amser aelodau sy'n ymwneud â'r trefniadau rhanbarthol ar wahân a amlinellir uchod.
57. Mae costau o ran amser aelodau sy'n ymwneud â Phaneli Cynllunio Strategol a Chyd-awdurdodau Trafnidiaeth wedi eu cynnwys yn y costau

<sup>8</sup> [Papur Gwyn ar Gwella Trafnidiaeth Gyhoeddus](#)

perthnasol a gyflwynir uchod. At ddibenion y trefniadau rhanbarthol sy'n weddill ar gyfer y bargeinion dinas a'r bargeinion twf, mae ein rhagdybiaeth weithio yn seiliedig ar arweinyr y prif gynghorau yn mynychu cyfarfodydd pwyllgor rhanbarthol (dangosir costau o ran amser aelodau yn Atodiad A). Nid yw'r amcangyfrifon yn cynnwys unrhyw amcangyfrifon sy'n ymwneud â threfniadau is-grwpiau a allai fod ar waith. Yn unol â'r dull gweithredu drwy gydol yr RIA hwn, mae ein hamcangyfrifon yn nodi'r costau posibl isaf ac uchaf. Mae hyn yn seiliedig ar y canlynol:

- Isafswm – 2 brif gyngor i gynnal cyfarfodydd 2 awr, yn chwarterol
- Uchafswm – 10 prif gyngor i gynnal cyfarfodydd 2 awr, yn chwarterol

**Tabl 4 – Cost amser cyfarfod arweinydd / aelod**

<b>Math o Gost</b>	<b>Yr Amcangyfrif Isaf</b>	<b>Yr Amcangyfrif Uchaf</b>
Amser Aelodau	£500	£2,600
	<b>£500</b>	<b>£2,600</b>

58. Mae'n debygol y byddai Cyd-awdurdodau Trafnidiaeth a Phaneli Cynllunio Strategol hefyd yn gorfod cydymffurfio â dyletswyddau 'corff cyhoeddus' craidd, gan gynnwys, er enghraifft, cyflawni dyletswyddau o dan y ddeddfwriaeth a ganlyn. (Noder ni fyddai hyn yn gymwys i lywodraethiant bargeinion dinas a bargeinion twf oherwydd y byddai'r rhain wedi eu cwmpasu yn y gofynion ar y prif gynghorau unigol sy'n ymwneud â'r bargeinion).
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
  - Deddf Cydraddoldeb 2010
  - Safonau'r Gymraeg
59. Nid yw costau cydymffurfio â dyletswyddau Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ar gyfer y cyrff rhanbarthol (Paneli Cynllunio Strategol a Chyd-awdurdodau Trafnidiaeth) o dan Opsiwn 1 wedi eu cynnwys fel cost ychwanegol ar wahân. O ran Paneli Cynllunio Strategol, nid yw'r costau hyn wedi eu cynnwys oherwydd teimlwyd y byddai'r broses o lunio'r cynllun datblygu ei hun yn ystyried y dyletswyddau, ac felly ni fyddai'n arwain at gostau ychwanegol, ac y gellid cyflawni hynny o fewn y costau gweinyddol a nodir. O ran Cyd-awdurdodau Trafnidiaeth, yn yr un modd â CBCau o dan Opsiwn 2, mae'r costau hyn wedi eu cynnwys yng nghostau cyffredinol y swyddogaeth gorfforaethol.
60. Yn yr un modd, o ran dyletswyddau eraill 'corff cyhoeddus', rhagdybir at ddibenion yr RIA hwn y bydd arfer y dyletswyddau hynny yn rhywbeth yr ymgymerir ag ef drwy swyddogaeth Corff Corfforedig Cyd-awdurdodau Trafnidiaeth neu Baneli Cynllunio Strategol o dan Opsiwn 1.
61. Yn ogystal â chostau cynnal trefniadau rhanbarthol unigol ar gyfer y swyddogaethau penodedig uchod, mae awdurdodau lleol yn debygol o fynd i gostau sy'n gysylltiedig â'r gweithgarwch ychwanegol sy'n ofynnol i gysoni'r trefniadau cydweithio amrywiol hyn. Os nad oes un dull ar waith,

yn aml rhaid i awdurdodau lleol wneud gwaith ychwanegol i gysoni gweithgarwch. Mae'r rhain yn gostau cyfle, ac fel y cyfryw ni ellir eu mesur. Un o fanteision CBC yw sicrhau bod swyddogaethau strategol sy'n fwy cyson â threfniadau cyflenwi rhanbarthol wedi eu cydgysylltu o dan un system er mwyn sicrhau bod y penderfyniadau allweddol o ran cynllunio, trafniadaeth a datblygu economaidd yn gyson ac yn cyflawni canlyniadau gwell ar gyfer dinasyddion.

62. Yn ogystal, gall fod costau hefyd i sefydliadau lleol / rhanbarthol eraill megis prifysgolion neu grwpiau busnes wrth ymdrin â threfniadau rhanbarthol lluosog ym mhob maes swyddogaeth. Mae'r costau hyn yn anodd eu hamcangyfrif, ac yn aml maent yn rhan o weinyddiaeth graidd y prif gynghorau. Gan hynny, nid yw'r costau hyn wedi eu cynnwys yn yr RIA hwn.

## **Costau i Lywodraeth Cymru**

### Datblygu Economaidd

63. Cydnabyddir bod cost yn gysylltiedig ag ymgysylltu'n effeithiol â'r prif gynghorau i gefnogi datblygu economaidd yn ogystal â gweithgarwch rhanbarthol arall. Ar hyn o bryd mae gan Lywodraeth Cymru adnoddau a ddefnyddir ganddi i hybu datblygu economaidd y gellir eu defnyddio mewn ffordd hyblyg i gynorthwyo llywodraeth leol a sefydliadau eraill i gyflawni gweithgarwch datblygu economaidd ledled Cymru. Mae'r adnoddau hyn wedi eu dyrannu ar sail y pedwar rhanbarth CBC arfaethedig, ond defnyddir dull gweithredu mwy lleol a chenedlaethol hefyd pan fo angen. Gellir defnyddio adnoddau o'r fath i gydweithio ag unrhyw set o drefniadau rhanddeiliaid neu drefniadau rhanbarthol, neu ymateb iddynt, megis y trefniadau presennol o dan Opsiwn 1 a'r trefniadau arfaethedig o dan Opsiwn 2. Ar sail hyn nid ydym yn bwriadu cynnwys y costau hyn ar gyfer y naill opsiwn na'r llall, oherwydd ystyrir y bydd y costau yr un faint ni waeth pa ddull gweithredu a fabwysiedir.

### Cynllunio Datblygu Strategol

64. Nododd RIA Deddf Cynllunio (Cymru)<sup>9</sup> y bydd angen adnoddau o ran staff Llywodraeth Cymru i gynorthwyo'r broses o ddatblygu Cynlluniau Datblygu Strategol gan Awdurdodau Cynllunio Lleol. Amcangyfrifwyd mai'r gost flynyddol barhaus fyddai £57,800 ar gyfer pobl ardal Cynllun Datblygu Strategol (costau wedi eu huwchraddio o werthoedd 2015).
65. Yn ogystal, disgwylir y bydd Llywodraeth Cymru yn mynd i gostau ar gyfer llunio'r rheoliadau perthnasol ar gyfer pob ardal Cynllun Datblygu Strategol a phob Panel Cynllunio Strategol. Byddai hyn yn golygu y bydd Llywodraeth Cymru yn mynd i gost untro ychwanegol fesul ardal fel y dangosir isod.

---

<sup>9</sup> [Deddf Cynllunio \(Cymru\) – Memorandwm Esboniadol](#) (gwerthoedd 2015)

**Tabl 5 – Llundio Rheoliadau i nodi Ardal Gynllunio'r Cynllun Datblygu Strategol a'r Panel Cynllunio Strategol**

<b>Cyflogai</b>	<b>Band Cyflog LIC</b>	<b>Nifer y Diwrnodau Sydd eu Hangen</b>	<b>Cyfanswm</b>
Dirprwy Gyfarwyddwr	SCS1	1	£500
Gradd 7	G7	5	£1,700
SEO	SEO	15	£3,900
Cyfreithiwr	G7	10	£3,400
Cyfieithu	SEO	2	£500
			<b>£10,000</b>

### Trafnidiaeth

66. Pe na bai CBCau yn cael eu sefydlu, byddai Cyd-awdurdodau Trafnidiaeth wedi eu sefydlu drwy Orchymyn o dan bwerau'r Ddeddf Trafnidiaeth (2006). Mae adran 5 o Ddeddf Trafnidiaeth (Cymru) 2006 yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud Gorchymyn yn sefydlu Cyd-awdurdodau Trafnidiaeth. Byddai Cyd-awdurdod Trafnidiaeth wedi bod yn ddull cydweithio rhanbarthol newydd, a byddai wedi bod rhaid i'r Gorchymyn a oedd yn sefydlu Cyd-awdurdod Trafnidiaeth nodi trefniadau gweithredu'r Cyd-awdurdod Trafnidiaeth, sut y caiff ei lywodraethu, manylion ei aelodau a'r swyddogaethau y mae'n ofynnol iddo eu cyflawni. O ran hyn mae'n debyg i CBC, ac felly mae'n rhesymol rhagdybio y byddai'r costau i Lywodraeth Cymru ar gyfer sefydlu Cyd-awdurdod Trafnidiaeth yn debyg i'r costau ar gyfer sefydlu CBC.

67. Gan hynny mae costau sefydlu Cyd-awdurdodau Trafnidiaeth yn seiliedig ar y costau a amlinellir ar gyfer sefydlu CBCau o dan Opsiwn 2. Oherwydd na fyddai Cyd-awdurdodau Trafnidiaeth wedi cael swyddogaethau sy'n ymwneud â'r elfen datblygu economaidd sy'n rhan o Gynlluniau Datblygu Strategol, rydym wedi lleihau nifer y diwrnodau sy'n angenrheidiol er mwyn adlewyrchu na fyddai angen yr elfennau hynny o'r rheoliadau CBC. Byddai'r costau (sydd wedi eu cynnwys yn Nhabl 6) yn rhai untro ac, yn unol â'r bwriad polisi ar yr adeg honno o ran Cyd-awdurdodau Trafnidiaeth, byddai'r costau hynny wedi bod ym mlwyddyn ariannol 2020-21.

**Tabl 6 – Llundio Gorchymynion i Sefydlu Cyd-awdurdodau Trafnidiaeth – Y Gost fesul Gorchymyn**

<b>Cyflogai</b>	<b>Band Cyflog LIC</b>	<b>Nifer y Diwrnodau sydd eu Hangen</b>	<b>Cyfanswm</b>
Dirprwy Gyfarwyddwr	SCS1	4	£1,900
Gradd 7	G7	16	£5,400
SEO	SEO	16	£4,200
Cyfreithiwr	G7	40	£13,500
Cyfieithu	SEO	4	£1,000
			<b>£26,000</b>

68. Yn yr un modd â Datblygu Economaidd, cydnabyddir bod cost yn gysylltiedig ag ymgysylltu'n effeithiol â'r prif gynghorau o ran cyflawni swyddogaethau trafndiaeth ledled Cymru. Ar hyn o bryd mae gan Lywodraeth Cymru adnoddau a ddefnyddir ganddi i gefnogi cyflawni swyddogaethau trafndiaeth, ac y gellir eu defnyddio mewn ffordd hyblyg i gynorthwyo llywodraeth leol a sefydliadau eraill i gyflawni gweithgarwch ledled Cymru. Er nad ydynt wedi eu dyrannu ar hyn o bryd ar sail unrhyw drefniadau rhanbarthol penodol, gellir defnyddio'r adnoddau hynny i gydweithio ag unrhyw set o drefniadau rhanddeiliaid neu drefniadau rhanbarthol, neu ymateb iddynt, megis Cyd-awdurdodau Trafnidiaeth o dan Opsiwn 1 a'r CBCau o dan Opsiwn 2. Ar sail hyn nid ydym yn bwriadu cynnwys y costau hyn ar gyfer y naill opsiwn na'r llall, oherwydd ystyrir y bydd y costau yr un faint ni waeth pa ddull gweithredu a fabwysiedir.

### Costau Eraill

69. Mae cynnal trefniadau rhanbarthol ar wahân fel y disgrifir o dan Opsiwn 1 hefyd yn peri costau sefydliadol ehangach i Lywodraeth Cymru o ran gwaith cysoni traws-lywodraethol a thraws-bolisi, sef gwaith a fyddai'n cael ei wneud ar y lefel ranbarthol o dan drefn unigol. Mae'r costau hyn yn cael eu hystyried yn rhan o weithgarwch arferol y Llywodraeth, ac felly nid ydynt wedi eu cynnwys fel rhan o'r RIA hwn.

### **Costau i Eraill**

70. Mae'n bosibl y bydd cyrff neu sefydliadau eraill yn mynd i gostau o dan Opsiwn 1 o ganlyniad i sefydlu cyrff rhanbarthol newydd ar wahân megis Cyd-awdurdod Trafnidiaeth a Phanel Cynllunio Strategol. Er enghraifft, mae'n debygol y byddai'r ddau yn ddarostyngedig i'r dyletswyddau o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a gofynion Safonau'r Gymraeg. Gan hynny, byddai'r ddau yn ddarostyngedig i rôl y comisiynwyr priodol, a gallai hynny beri costau pellach.

71. Mae'n debygol iawn y byddai Cyd-awdurdod Trafnidiaeth a Phanel Cynllunio Strategol wedi bod yn ddarostyngedig i'r dyletswyddau llesiant o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015. Yn yr opsiwn 'gwneud dim' felly, mae'n dilyn y byddai'n rhaid i Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol fonitro ac asesu'r cyrff rhanbarthol hyn fel rhan o'i dyletswyddau o dan y Ddeddf. Ar hyn o bryd mae'r Comisiynydd yn monitro 44 o gyrff cyhoeddus o dan y Ddeddf. Mae'r Comisiynydd yn cytuno'n flynyddol â Llywodraeth Cymru ar y cyllid angenrheidiol i gyflawni ei rôl a'i swyddogaethau llawn. Mae'r Comisiynydd yn gyfrifol am wneud trefniadau i gyflawni ei rolau a'i swyddogaethau o fewn y paramedrau cyllido hynny. At ddiben yr RIA drafft hwn rydym wedi rhagdybio y byddai'r baich ychwanegol o fonitro ac asesu'r cyrff rhanbarthol hyn yn cael ei gyflawni o fewn y trefniadau cyllido presennol, ac nid ydym wedi cynnwys unrhyw gostau ychwanegol yn yr RIA hwn.

72. O ran Comisiynydd y Gymraeg, ar hyn o bryd mae 127 o gyrff yn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg, ac mae gan dros 300 o gyrff eraill gynlluniau iaith statudol neu anstatudol, sydd oll yn cael eu monitro a'u gorfodi gan Gomisiynydd y Gymraeg. Mae hefyd yn bwysig nodi bod swyddogaethau CBC eisoes yn swyddogaethau prif gynghorau yn hytrach nag yn rhai newydd. At ddiben yr RIA hwn, nid yw'r baich ychwanegol o lunio hysbysiadau a monitro cydymffurfiaeth ar gyfer cyrff ychwanegol y Paneli Cynllunio Strategol a'r Cyd-awdurdodau Trafnidiaeth o dan Opsiwn 1 yn cael ei ystyried yn faich ychwanegol sylweddol i'r Comisiynydd, ac nid oes unrhyw gostau ychwanegol wedi eu cynnwys.
73. Mae'n werth nodi bod y costau i'r cyrff rhanbarthol o ran cydymffurfio â dyletswyddau Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol wedi eu cynnwys yng nghostau'r Cyd-awdurdodau Trafnidiaeth (yn yr un modd ag y mae'r costau hynny wedi eu cynnwys ar gyfer CBCau yn Opsiwn 2 – sef fel rhan o'r swyddogaeth gorfforaethol gyffredinol). Nid yw'r costau hyn wedi eu cynnwys ar gyfer Paneli Cynllunio Strategol oherwydd rhagdybiwyd y byddai'r broses o lunio'r cynllun datblygu ei hun yn ystyried y dyletswyddau, ac felly ni fyddai'n mynd i unrhyw gostau ychwanegol a gellid eu talu fel rhan o'r costau gweinyddol a nodwyd eisoes.

### **Y Manteision i Lywodraeth Leol**

74. Un o argymhellion allweddol y Gweithgor ar Lywodraeth Leol oedd bod angen dull o gefnogi cydweithio a chydweithredu rhanbarthol a fyddai'n gallu symleiddio'r broses o gyflawni gwahanol fathau o drefniadau cydweithio rhanbarthol. Yn amlwg, ni fyddai cynnal y sefyllfa bresennol a'r trefniadau rhanbarthol lluosog yn mynd i'r afael â hyn, fodd bynnag, rydym wedi ystyried manteision cadw'r dulliau gweithredu unigol o dan bob maes swyddogaeth.

### **Datblygu Economaidd**

75. Manteision cynnal y strwythurau datblygu economaidd presennol i brif gynghorau yw bod y strwythurau hynny yn rhai sy'n hysbys neu'n gyfarwydd, ac maent yn cynnwys trefniadau sydd wedi eu negodi a'u rhoi ar waith dros gyfnod o amser. Ar adegau mae'r broses negodi ei hun wedi helpu i bennu uchelgais gyffredin ar gyfer y trefniadau rhanbarthol a meithrin dealltwriaeth gyffredin ohonynt, ac wedi datblygu dulliau gweithredu mwy hirdymor sydd wedi cefnogi'r prosesau gwneud penderfyniadau strategol rhanbarthol.
76. Defnyddir y dull gweithredu Cyd-bwyllgor yn bennaf ar gyfer y trefniadau hyn, sef dull gweithredu y mae llywodraeth leol yn gyfarwydd ag ef ac sy'n adlewyrchu anghenion lleol.
77. Mae nifer o'r rhanbarthau hefyd wedi taro bargeinion gyda Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU. Mae'n bosibl y bydd angen ailystyried y trefniadau llywodraethu ar gyfer y rhain pe bai trefniadau'r bargeinion

dinas a'r bargeinion twf yn symud i'r dull gweithredu CBC. Byddai cynnal y sefyllfa bresennol yn osgoi'r risg hon.

### Cynllunio Datblygu Strategol

78. Mae cyflawni Cynllun Datblygu Strategol o dan y Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol yn ddewis gwirfoddol i raddau helaeth, ac felly manteision y sefyllfa bresennol yw y bydd awdurdodau lleol yn gallu dewis pa un ai i ymrwymo i drefniadau Cynllun Datblygu Strategol a phryd i wneud hynny, ac felly dewis pa un ai i fynd i'r costau sy'n gysylltiedig â'r broses honno ai peidio. Byddant hefyd yn gallu datblygu'r trefniadau hynny ar lefel ranbarthol er mwyn cyfateb i'r dull gweithredu a ddewisir ganddynt (o fewn cyfyngiadau'r Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol). Ystyriwyd costau a manteision ymgymryd â Chynlluniau Datblygu Strategol rhanbarthol o'u cymharu â pharhau â Chynlluniau Datblygu Lleol ym mhob awdurdod fel rhan o RIA Deddf Cynllunio (Cymru)<sup>10</sup> ac felly nid yw wedi ei ailadrodd yma

### Trafnidiaeth

79. Er nad yw'n ofynnol i brif gynghorau gydweithio'n rhanbarthol ar hyn o bryd, maent wedi cydweithio'n flaenorol drwy drefniadau annibynnol o dan y Consortia Trafnidiaeth Rhanbarthol. Gan hynny maent yn gyfarwydd, i ryw raddau, â threfniadau rhanbarthol annibynnol yn y maes hwn ac mae'n bosibl eu bod o'r farn ei bod yn fanteisiol cadw dulliau gweithredu annibynnol o'r fath.

80. Fodd bynnag, mae'n werth nodi bod rhai rhanbarthau wrthi'n ystyried sefydlu trefniadau, neu wedi sefydlu trefniadau, o dan y bargeinion dinas a'r bargeinion twf i ystyried materion trafndiaeth ar sail ranbarthol. Mae hyn yn awgrymu symud tuag at fwy o gysoni o dan fodel unigol sy'n gyson â'r dull gweithredu CBC.

### **Y Manteision i Lywodraeth Cymru**

81. O ran Llywodraeth Cymru, prif fantais cynnal y sefyllfa bresennol yw bod y strwythurau presennol yn bodoli eisoes i raddau helaeth (gan gynnwys mewn statud mewn rhai achosion), ac maent yn hysbys a cheir dealltwriaeth ohonynt. Mewn rhai achosion, er enghraifft drwy'r dulliau gweithredu rhanbarthol o ran datblygu economaidd, mae'r dulliau gweithredu presennol eisoes wedi dangos rhywfaint o gynnydd. Bydd yn bwysig cynorthwyo llywodraeth leol i symud y trefniadau sy'n bodoli eisoes i'r model CBC, pe baent yn dewis gwneud hynny.

82. O ran Cynlluniau Datblygu Strategol yn y De-ddwyrain roedd y trafodaethau ar gynigion ar gyfer Panel Cynllunio Strategol wedi dechrau eisoes. Byddai Opsiwn 1 yn caniatáu i'r cynnydd hwn barhau, ac o bosibl gallai Llywodraeth Cymru weld Cynllun Datblygu Strategol ar gyfer

---

<sup>10</sup> [Deddf Cynllunio \(Cymru\) – Memorandwm Esboniadol](#)



rhanbarth y De-ddwyrain yn cael ei lunio'n gyflymach, er ni ellir gwarantu hyn. Mae'r dull gweithredu presennol gyda'r Awdurdodau Cynllunio Lleol hefyd yn wirfoddol i raddau helaeth. Mae hyn yn fanteisiol i Lywodraeth Cymru oherwydd nid oes rhaid gorfodi cydweithio.

## Opsiwn 2 – Gweithredu'r Polisi a Sefydlu CBCau

83. Mae Opsiwn 2 yn golygu sefydlu CBCau drwy reoliadau. Ni fydd y rhan fwyaf o fanylion trefniadau gweithredu CBC yn cael eu pennu yn y rheoliadau. Bydd y CBCau yn pennu'r manylion hynny eu hunain. Gan hynny, wrth lunio'r RIA bu'n rhaid datblygu ystod o'r opsiynau posibl o ran costau ac amcangyfrifon ar sail y penderfyniadau sydd ar gael i awdurdodau lleol. Ym mhob achos isod mae'r RIA yn nodi'r rhagdybiaethau ar gyfer datblygu'r ystod o gostau a ddangosir ac yn ceisio dangos y gost isaf neu'r gost uchaf bosibl ar gyfer CBCau.
84. Wrth gyflwyno'r costau yn y ffordd hon, a'r rhagdybiaethau sy'n sail i'r amcangyfrifon, ni fwriedir disgrifio pa drefniadau y dylai CBC eu rhoi ar waith, ond yn hytrach dangos costau'r opsiynau posibl sydd ar gael i CBC.
85. Fel y trafodwyd yn flaenorol, mae'n bwysig bod yr opsiwn hwn yn adlewyrchu'r disgrisiwn lleol sydd ar gael o ran y trefniadau llywodraethiant a chyflawni, ac felly cyflwynir ystod o'r costau posibl ar gyfer Opsiwn 2. Nodwyd bod costau sefydlu a rhedeg y CBCau rhanbarthol dros gyfnod cyfeirio chwe blynedd yr RIA hwn rhwng £9.8 miliwn ac £16.0 miliwn. Dangosir y costau hyn ar sail flynyddol yn Nhabl 7. Yna mae'r RIA yn cyflwyno cyfrifiadau a rhagdybiaethau manwl pellach sy'n sail i'r costau Opsiwn 2 hyn.
86. Nid yw'r RIA yn ceisio mynd i'r afael â sut y gallai'r costau hyn gael eu dyrannu i bob prif gyngor, ac felly'r costau cyfrannol i bob un. Penderfyniadau lleol yw'r penderfyniadau ar sut y caiff y costau posibl a nodir yn yr RIA eu hariannu a yn ôl pa gyfran, ac felly nid oes modd eu hamcangyfrif. Fodd bynnag, mae'r deg dweud y gallai'r costau fod yn gymesur uwch ar gyfer y CBCau hynny sydd â llai o brif cynghorau cyfansoddol.

**Tabl 7 – Costau cyffredinol a amcangyfrifir**

<b>Blwyddyn</b>	<b>Yr Amcangyfrif Isaf</b>	<b>Yr Amcangyfrif Uchaf</b>
Blwyddyn 1	£175,900	£1,272,600
Blwyddyn 2	£2,084,100	£3,100,200
Blwyddyn 3	£2,084,100	£3,100,200
Blwyddyn 4	£1,834,100	£2,850,200
Blwyddyn 5	£1,834,100	£2,850,200
Blwyddyn 6	£1,834,100	£2,850,200
	<b>£9,846,400</b>	<b>£16,023,600</b>

## Y Costau i Awdurdodau Lleol<sup>11</sup>

87. Yn yr opsiwn hwn, rydym wedi cyfrifo costau'r dull o weithredu CBC i gynnwys y meysydd a ganlyn:
- Costau Staff – rheoli CBC ei hun fel corff corfforedig
  - Costau Adeiladau, Gweinyddol, Cymorth a TG
  - Costau Archwilio
  - Cyfarfodydd / Llywodraethiant
  - Meysydd Swyddogaeth (gan gynnwys costau staff ar gyfer cyflawni swyddogaethau)
    - Swyddogaethau Datblygu Strategol (Cynllunio)
    - Swyddogaethau Trafnidiaeth
    - Datblygu Economaidd
  - Costau Eraill
88. Er y datblygwyd y Rheoliadau drwy ddull gweithredu ar y cyd, nid ydym wedi cynnwys unrhyw gostau llywodraeth leol sy'n ymwneud â datblygu'r Rheoliadau. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae'r gwaith ymgysylltu â datblygu ar y cyd wedi ceisio defnyddio strwythurau a threfniadau cyfarfod sy'n bodoli eisoes, er enghraifft drwy gyfarfodydd Cyfreithwyr Llywodraeth Leol, Cymdeithas Trysoryddion Cymru a'r fforymau economaidd rhanbarthol, ac felly ni aethpwyd i unrhyw gostau ychwanegol sylweddol o ran hynny.

### Costau Staff

89. Bydd y Rheoliadau sy'n sefydlu CBCau yn cynnwys darpariaethau sy'n eu galluogi i gyflogi staff yn uniongyrchol a dal asedau. Er bod staffio yn fater i'r CBC ei hun, mae nifer o rolau statudol a fydd yn ofynnol fel rhan o'r Rheoliadau, ac mae'r RIA wedi gwneud rhai rhagdybiaethau ychwanegol o ran y rolau sydd eu hangen i lywodraethu CBC. Mae'r costau staff a ganlyn ar gyfer staff sy'n ymwneud â rheoli'r CBC ei hun fel corff corfforedig, ac wedi eu cyfrifo ar sail flynyddol. Ymdrinnir ar wahân â chostau sy'n ymwneud rheoli'r pwyllgorau (llywodraethiant) a chostau staff sy'n ymwneud â chyflawni swyddogaethau unigol.
90. Rhagdybir am gyfnod yr RIA hwn mai prin fydd y costau yr eir iddynt yn ystod y flwyddyn gyntaf wrth i CBCau ymsefydlu. Mae'r holl gyfrifiadau o gostau staff wedi eu cynnwys yn Atodiad A, a cheir dadansoddiad o'r holl gostau blynyddol, gan gynnwys y flwyddyn gyntaf, yn Atodiad B.
91. Yn unol â'r dull gweithredu o ran ystyried 'ystod o gostau' y rhagdybiaeth weithio ar gyfer datblygu costau staff yw:
- Amcangyfrifon isaf – awdurdodau lleol i gontractio staff i CBC gan gytuno i beidio â chodi tâl gorbenion ar gyfer cyflenwi staff, fel

---

<sup>11</sup> Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol (RIA) yn ystyried y gost i lywodraeth leol. Bydd y rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdodau lleol cyfansoddol sicrhau bod y CBC wedi ei ariannu'n briodol, felly, hyd yn oed pan fo'r costau o fewn y CBC, caiff ei ystyried yn gost i awdurdod lleol, a chaiff ei chyflwyno felly yn yr RIA hwn.

rhan o'u cyfraniad at yr agenda gydweithredol. Darperir asedau / cyfarpar i staff i'w galluogi i gyflawni'r rôl.

- Amcangyfrifon uchaf – CBC i gyflogi ei staff ei hun yn llwyr, a darparu'r holl asedau sydd eu hangen i gyflawni'r rôl.

92. Wrth ystyried y costau staff, mae'r RIA yn ystyried y costau sy'n ymwneud â'r canlynol:

- Uwch-swyddogion
- Swyddogaethau corff corfforedig

### *Costau Uwch-swyddogion*

93. Mae'r tabl a ganlyn yn cynnwys costau blynyddol tri aelod o staff i gyflawni'r rolau a fyddai'n ofyniad deddfwriaethol o fewn CBC; sef Prif Weithredwr, Swyddog Cyllid (Swyddog adran 151) a Swyddog Monitro. Mae'n debygol y bydd y rolau hyn yn cael eu gweithredu drwy'r rheoliadau cyffredinol yn unol â'r dull o drin CBC fel rhan o'r teulu llywodraeth leol. Nodir costau amrywiol o un diwrnod yr wythnos i lawnamser. Nid yw'r RIA yn nodi cost ar gyfer rôl gyfatebol i rôl y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd. Rhagdybir, yn sgil natur CBCau, na fyddai angen rôl ar wahân yn yr un ffordd ag yn achos Prif Gyngor – e.e. ni fydd angen pwyllgor gwasanaethau democrataidd. Rhagdybir y bydd y swyddogaethau perthnasol sy'n weddill (hyfforddiant aelodau, cynlluniau datblygu etc.) yn cael eu hymgorffori yn y swyddogaethau, ac felly costau'r Swyddogaeth Corff Corfforedig isod o fewn costau'r Pennaeth Gwasanaethau Corfforaethol.

**Tabl 8 – Costau uwch-swyddogion fesul blwyddyn**


<b>Cyflogai</b>	<b>Yr Amcangyfrif Isaf</b>	<b>Yr Amcangyfrif Uchaf</b>
Prif Weithredwr	£37,100	£171,100
Swyddog Cyllid (Swyddog 151)	£24,800	£114,200
Swyddog Monitro	£17,500	£80,900
	<b>£79,400</b>	<b>£366,200</b>

### *Costau Staff sy'n Gysylltiedig â'r Swyddogaeth Corff Corfforedig*

94. Mae'r RIA yn ystyried y swyddogaethau sy'n rhesymol ofynnol ar gyfer rhedeg corff corfforedig megis CBC, gan gynnwys swyddogaethau Cyllid, Cyfreithiol, Adnoddau Dynol, TGCh/Cyfleusterau a Chorfforaethol (i gynnwys arfer a chydymffurfio ag unrhyw swyddogaethau 'corff cyhoeddus' megis y rheini o dan Safonau'r Gymraeg, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 a Deddf Cydraddoldeb 2010). Mae unrhyw gyfeiriad at bwyntiau cyflog yn gyfeiriad at y pwynt perthnasol ar gytundeb Ebrill 2018-20 y Cyd-gyngor Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Llywodraeth Leol.

95. Y rhagdybiaethau o ran costau

- Amcangyfrifon isaf – y rhagdybiaeth oedd asesu cost pwynt 35 ar gyfer gweithio un diwrnod yr wythnos waith ar gyfer yr holl swyddogaethau Adnoddau Dynol, TGCh, Cyfleusterau a Chorfforaethol. O ran y swyddogaethau Cyfreithiol a Chyllid, ystyriwyd ei bod yn rhesymol, oherwydd y cymwysterau uwch sy'n ofynnol i gyflawni'r rolau hyn, i asesu cost pwynt 43 am un diwrnod yr wythnos ar gyfer y rolau hyn.
- Amcangyfrifon uchaf – y rhagdybiaeth oedd ar gyfer tîm llawn o dan Bennaeth Gwasanaethau Corfforaethol i gwmpasu'r holl swyddogaethau. Nodir y manylion yn y siart sefydliadol isod (at ddibenion dangosol) gyda chyfrifiadau costau'r staff unigol wedi eu cynnwys yn Atodiad A.



**Tabl 9 – Costau swyddogaeth fesul blwyddyn**

Swyddogaeth	Yr Amcangyfrif Isaf	Yr Amcangyfrif Uchaf
Cyllid	£12,800	£124,600
Cyfreithiol	£12,800	£124,600
Adnoddau Dynol	£10,700	£123,500
TGCh/Cyfleusterau	£10,700	£123,500
Corfforaethol	£10,700	£123,500
	<b>£57,700</b>	<b>£619,700</b>

Costau Adeiladau, Gweinyddol, Cymorth a TG

96. Mae ystod o gostau posibl yn gysylltiedig â sefydlu a rhedeg CBC, er enghraifft costau sy'n ymwneud ag adeiladau, cymorth gweinyddol a TG. Mae'n bosibl y bydd angen buddsoddiad cychwynnol i brynu cyfrifiaduron bwrdd gwaith neu liniaduron, gweinyddion, ffonau symudol, taflunyddion, peiriannau argraffu/llungopïo, offer perifferol a cheblau. Mae negodi ynghylch yr holl eitemau hyn yn debygol o leihau'r costau, ond mae'n anodd amcangyfrif graddau hynny hyd nes i'r broses ddechrau.

97. Fel gyda llawer o feysydd eraill sy'n ymwneud â llywodraethiant CBC, bydd cryn dipyn o'r sylfaen gostau yn dibynnu ar y penderfyniadau y mae CBC yn eu gwneud ynghylch sut y caiff ei sefydlu a'i drefniadau o ran staff. At ddibenion costau Adeiladau, Gweinyddol, Cymorth a TGCh, rydym wedi rhagdybio mai'r costau isaf fyddai sero, gan gymryd y caiff y rhain eu hymgorffori yn lleol neu fel rhan o wasanaethau gweinyddol neu swyddogaethau'r cynghorau cyfansoddol perthnasol. Nodir yr amcangyfrifon uchaf yn Nhabl 10.

**Tabl 10 – Crynodeb o'r Costau Gweinyddol**

Math o Gost	Cost	Unedau	Ffynhonnell	Cyfanswm
Dodrefnu*	£450 fesul m/sg	200	<a href="#">Dolen</a>	£90,000
Cost Weinyddol	£3,428.33 fesul FTE	26.5	<a href="#">Dolen</a>	£545,100
Recriwtio*	£2000 fesul FTE	26.5	<a href="#">Dolen</a>	£53,000
Trwyddedau TGCh	£315.57 fesul FTE	26.5	<a href="#">Dolen</a>	£50,200
Gliniadur a Pherifferolion*	£720 fesul FTE	26.5	<a href="#">Dolen</a>	£19,100
Ffonau a Band Eang	£506.67 fesul FTE	26.5	<a href="#">Dolen</a>	£80,600
*Cost untro				<b>£838,000</b>

Archwilio

98. Fel awdurdod cyhoeddus y bwriad yw y bydd CBCau yn gyrrff cyhoeddus y gellir eu harchwilio. Oherwydd hynny bydd cost ar gyfer archwilio blynyddol yn ogystal ag archwilio mewnol. At ddibenion yr RIA hwn, rhagdybir yr ymgwymerir â'r swyddogaethau archwilio mewnol fel rhan o'r Swyddogaeth Corff Corfforedig, ac felly mae'r costau wedi eu cynnwys yn yr ystod o gostau staff uchod.

99. O ran archwilio blynyddol, mae'r costau a ganlyn ar gyfer un archwiliad, ac maent wedi eu cyfrifo gan ddefnyddio ffigurau a ddarperir yn adroddiad Cynllun Ffioedd Swyddfa Archwilio Cymru 2020-21<sup>12</sup>. Er mwyn amcangyfrif y gost, ac oherwydd y ffaith nad oes gwerth ffi llywodraeth leol cymaradwy ar gael ar hyn o bryd, mae'r RIA wedi defnyddio gwariant cymaradwy i nodi costau procsi priodol o'r cynllun ffioedd. Gan fod gwariant gros CBC yn amrywio rhwng £1.3 miliwn a £3.1 miliwn y flwyddyn (fel y dangosir yn Atodiad B), gellir ei gymharu â'r Awdurdodau Parciau Cenedlaethol yn Adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru, ac felly rydym wedi defnyddio ffi archwilio Awdurdod Parc Cenedlaethol fel procsi.

**Tabl 11 – Costau archwilio**

<b>Math o Gost</b>	<b>Yr Amcangyfrif Isaf</b>	<b>Yr Amcangyfrif Uchaf</b>
Archwilio Blynyddol	£21,000	£34,000
	<b>£21,000</b>	<b>£34,000</b>

#### Cyfarfodydd / Llywodraethiant

100. Bydd y Rheoliadau sy'n sefydlu CBCau yn ei gwneud yn ofynnol i CBCau gynnal cyfarfodydd i wneud penderfyniadau allweddol, felly mae angen i'r RIA gynnwys costau posibl ar gyfer llywodraethiant (cyfarfodydd etc.) y CBC – gan gynnwys costau'r staff sydd eu hangen i weinyddu trefniadau'r cyfarfodydd (gweler isod).
101. Mae'n bwysig nodi bod y costau hyn ar gyfer y CBC ei hun ac nid yw'n cynnwys unrhyw gyfeiriad at is-bwyllgorau na chostau is-bwyllgorau. Penderfyniad i'r CBCau eu hunain fydd pa un ai i sefydlu is-bwyllgorau, ac felly nid ydynt wedi eu cynnwys, oherwydd ni fyddai'n bosibl rhag-weld pa un a fyddai CBCau yn sefydlu is-bwyllgorau neu beidio. Rhagdybir y bydd CBCau yn gyfrifol am lywodraethiant yr holl swyddogaethau a fyddai fel arall wedi eu cyflawni o dan Opsiwn 1 drwy drefniadau llywodraethiant ar wahân.
102. Ni chaiff nifer y cyfarfodydd y dylai CBC eu cynnal ei bennu yn y Rheoliadau, y CBCau eu hunain fydd yn penderfynu ar hynny. Fodd bynnag, yn unol â'n dull gweithredu drwy gydol yr RIA hwn, rydym wedi darparu amcangyfrif o'r costau ar sail ystod bosibl (amcangyfrifon isaf / uchaf). Fel yn yr achosion eraill, ni fwriedir i'r costau a nodir benderfynu na dangos faint o gyfarfodydd y dylai CBCau eu cynnal, ond yn hytrach dangos ystod o opsiynau posibl.
103. Ein rhagdybiaeth weithio ar gyfer yr amcangyfrifon yw:
- Amcangyfrif isaf – CBC ar ffurf dau brif gyngor i gynnal cyfarfodydd chwarterol
  - Amcangyfrif uchaf – CBC ar ffurf 10 prif gyngor i gynnal cyfarfodydd misol

<sup>12</sup> [Adroddiad Cynllun Ffioedd Swyddfa Archwilio Cymru 2020-21](#)

104. Mae'r costau a ganlyn ar gyfer un cyfarfod, ac yn ychwanegol at y costau sy'n gysylltiedig â Swyddogaeth Corff Corfforedig. Mae'r holl gyfrifiadau costau staff sy'n gysylltiedig â'r CBC wedi eu cynnwys yn Atodiad A, a darperir dadansoddiad o'r holl gostau blynyddol yn Atodiad B.
105. Mae'r gost fesul cyfarfod yn seiliedig ar y rhagdybiaethau a ganlyn:
- Ysgrifenyddiaeth – gwnaed rhagdybiaeth i gyfrifo cost aelod o staff (cyfwerth â phwynt 35) ar gyfer tri diwrnod fesul cyfarfod i gyflawni'r rôl hon. Byddai hyn yn cynnwys diwrnod i lunio'r agenda a gwneud trefniadau ymarferol ar gyfer y cyfarfod, diwrnod i weinyddu'r cyfarfod a chynorthwyo'r aelodau, a diwrnod i lunio'r cofnodion terfynol.
  - Cyfreithiol – gwnaed rhagdybiaeth i gyfrifo cost cyfreithiwr (cyfwerth â phwynt 43) ar gyfer dau ddiwrnod fesul cyfarfod. Bydd angen y cyfreithiwr am ddiwrnod i roi eglurhad cyfreithiol yn ystod y cyfarfod, a diwrnod i wirio'r cofnodion a'r dogfennau eraill o ran cywirdeb a sicrwydd cyfreithiol. Fodd bynnag, cydnabyddir y gallai'r rôl hon gael ei chyflawni gan y Swyddog Monitro, a nodir y costau ar gyfer hynny ar wahân uchod.
  - Cyfieithu – gwnaed rhagdybiaeth i gyfrifo cost cyfieithydd ar y pryd ar gyfer y cyfarfod a diwrnod o wasanaeth cyfieithu testun ar gyfer yr holl gofnodion a dogfennau.
  - Aelodau – gwnaed rhagdybiaeth i gyfrifo cost 2 awr o amser aelodau etholedig pob prif gyngor ar gyfer pob cyfarfod.
106. Nid ydym wedi ystyried unrhyw gostau ar gyfer adeilad neu ystafell gyfarfod oherwydd rhagdybir ym mhob achos y bydd CBC yn defnyddio cyfleusterau'r awdurdodau lleol cyfansoddol. Rhagdybir na fydd unrhyw CBC yn dewis sefydlu eu cyfleusterau eu hunain at y diben hwn, ac na fydd arnynt angen cyfleusterau o'r fath.
107. Yn ogystal, roedd Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Coronafeirws) (Cyfarfodydd) (Cymru) 2020<sup>13</sup> wedi gwneud darpariaeth i alluogi cynnal cyfarfodydd awdurdodau lleol yn gyfan gwbl drwy bresenoldeb o bell. Er bod y rheoliadau hyn yn gyfyngedig o ran amser, yn dilyn sylwadau gan lywodraeth leol, bydd Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn galluogi gwneud defnydd mwy parhaol o'r dull gweithredu hwnnw. Felly mae'r RIA hwn yn rhagdybio y caiff y rhan fwyaf o gyfarfodydd, neu hyd yn oed bob cyfarfod, eu cynnal yn rhithiol. O ganlyniad, nid yw'r RIA ychwaith yn cynnwys amser teithio ar gyfer aelodau neu swyddogion sy'n mynychu cyfarfodydd CBC.

---

<sup>13</sup> [Rheoliadau Awdurdodau Lleol \(Coronafeirws\) \(Cyfarfodydd\) \(Cymru\) 2020](#)

**Tabl 12 – Costau fesul cyfarfod CBC**

<b>Swyddogaeth</b>	<b>Yr Amcangyfrif Isaf</b>	<b>Yr Amcangyfrif Uchaf</b>
Ysgrifenyddiaeth	£600	£600
Cyfreithiol	£500	£500
Cyfieithu	£500	£500
Amser Aelodau	£100	£700
	<b>£1,700</b>	<b>£2,300</b>

Meysydd SwyddogaethSwyddogaethau Cynllunio Strategol

108. Bydd y Rheoliadau sy'n sefydlu CBCau yn cynnwys y fath ddarpariaeth a fydd yn gwneud CBC yn gyfrifol am lunio, monitro, adolygu a diwygio Cynllun Datblygu Strategol.
109. Yn yr un modd ag Opsiwn 1, mae'r costau ar gyfer llunio Cynllun Datblygu Strategol yn seiliedig ar y fethodoleg a'r rhagdybiaethau o ran costau a amlinellwyd ym mhapur Methodoleg RIA<sup>14</sup> Bil Cynllunio (Cymru), sef Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 erbyn hyn.
110. Fel y nodwyd yn flaenorol, nid ydym wedi ystyried costau a manteision Cynlluniau Datblygu Lleol o'u cymharu â Chynlluniau Datblygu Strategol fel rhan o'r ddogfen hon oherwydd ystyriwyd costau o'r fath fel rhan o RIA Deddf Cynllunio (Cymru). Er bod costau Cynlluniau Datblygu Strategol wedi eu cynnwys yn yr RIA hwn, ni fwriedir awgrymu bod cost y broses Cynllun Datblygu Strategol yn gost ychwanegol ar ben y prosesau cynllunio cyfredol. Rhoddwyd ystyriaeth i gyd-destun cyffredinol Cynlluniau Datblygu Strategol yn RIA Deddf Cynllunio (Cymru). Drwy ddefnyddio gwybodaeth am Gynlluniau Datblygu Strategol o RIA Deddf Cynllunio (Cymru) gellir llunio cymhariaeth rhwng y model llywodraethiant presennol, sef Paneli Cynllunio Strategol, a'r model CBC arfaethedig.
111. Roedd RIA Deddf Cynllunio (Cymru)<sup>15</sup> a'r papur methodoleg cysylltiedig wedi ystyried manylion y costau a'r manteision sy'n gysylltiedig ag ymgymryd â'r gwaith o lunio Cynllun Datblygu Strategol drwy Banel Cynllunio Strategol dros gyfnod o 5 mlynedd. Nid yw'r RIA hwn yn ceisio atgynhyrchu cyfrifiadau manwl RIA Deddf Cynllunio (Cymru).
112. Amcangyfrifwyd mai costau cyflwyno Cynlluniau Datblygu Strategol fydd £3,500,000<sup>16</sup> fesul ardal Cynllun Datblygu Strategol – gan ddibynnu ar faint yr ardal a nifer yr awdurdodau lleol ynddi. Mae'r costau hyn yn cynnwys costau staff, costau llywodraethiant (gan gynnwys llywodraethiant Paneli Cynllunio Strategol), costau staff arbenigol, costau

<sup>14</sup> [Bil Cynllunio \(Cymru\) - Papur Methodoleg yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol](#) (Adran 4)

<sup>15</sup> [Deddf Cynllunio \(Cymru\) – Memorandwm Esboniadol](#)

<sup>16</sup> Gwerthoedd 2015



i gyrff ymgynghori penodol, costau casglu sylfaen dystiolaeth, costau archwilio a chostau argraffu a chyhoeddi. Mae'n werth nodi yr amcangyfrifwyd y costau hyn ar sail ardal De-ddwyrain Cymru sy'n cynnwys 10 awdurdod lleol, ac felly o ran y pedwar CBC sy'n cael eu sefydlu mae'n debygol o fod y gost uchaf, ac mae'r costau yn yr ardaloedd eraill yn debygol o fod yn is na'r enghraifft ddangosol hon.

113. Nid oedd costau rheolaidd sy'n ymwneud â'r gwaith o adolygu a diwygio Cynllun Datblygu Strategol, ynghyd â materion sy'n ymwneud â chydymffurfiaeth gyffredinol, wedi eu cynnwys yn RIA Deddf Cynllunio (Cymru) oherwydd rhagdybir eu bod i raddau helaeth yn cael effaith ar ôl llunio'r Cynllun Datblygu Strategol, ac felly maent y tu hwnt i gwmpas yr RIA. Gan hynny nid ydym wedi cynnwys unrhyw gostau o'r fath yn yr RIA hwn ychwaith.
114. Yng nghostau gwreiddiol RIA Deddf Cynllunio (Cymru) cyfrifwyd mai costau'r Panel Cynllunio Strategol oedd £174,400<sup>17</sup>. Ni fyddai'r dull gweithredu CBC yn mynd i'r costau hyn. O dan ddull gweithredu Opsiwn 2, byddai CBC yn cyflawni'r rôl o lunio, monitro, adolygu a diwygio Cynllun Datblygu Strategol yn hytrach na'r Panel Cynllunio Strategol. Mae costau gweithredol y CBC a'i is-bwyllgorau wedi eu hystyried eisoes yn yr RIA hwn.
115. Roedd costau llunio Cynllun Datblygu Strategol yn RIA Deddf Cynllunio (Cymru) yn cynnwys amcangyfrif isaf ac uchaf. Gan nad oes gwahaniaeth sylweddol rhwng y gwerthoedd hyn, ac oherwydd effaith uwchraddio, at ddibenion yr RIA hwn nid ydym ond wedi ystyried yr amcangyfrif uchaf – £3,505,300.
116. Gan hynny cyfanswm y gost o lunio Cynllun Datblygu Strategol drwy CBC yw'r cyfanswm costau a nodir yn RIA Deddf Cynllunio (Cymru) (£3,505,300) namyn y costau sy'n gysylltiedig â Phanel Cynllunio Strategol (£174,398,400 sef £3,330,900 (yn ôl gwerthoedd 2015).
117. Yn ôl prisiau cyfredol (gan gymhwyso uwchraddiad o 8.3%) cyfanswm y gost o lunio Cynllun Datblygu Strategol i CBC yw £3,607,500.
118. Mae costau Cynllun Datblygu Strategol wedi eu nodi dros gyfnod o 5 mlynedd yn RIA Deddf Cynllunio (Cymru), felly cost flynyddol llunio Cynllun Datblygu Strategol drwy CBC yw £721,500. Rhagdybir am gyfnod yr RIA hwn mai prin fydd y costau yr eir iddynt yn ystod y flwyddyn gyntaf ac felly bydd y costau sy'n weddill wedi eu gwasgaru dros Flynyddoedd 2 i 6.

#### *Strwythur staffio ar gyfer llunio Cynllun Datblygu Strategol*

119. Mae costau staff y CBC wedi eu hystyried eisoes yn yr RIA hwn. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi nad yw'r costau hynny yn cynnwys

---

<sup>17</sup> Gwerthoedd 2015

costau ar gyfer cyflawni swyddogaethau penodol CBC. Mae costau staff ar gyfer llunio Cynllun Datblygu Strategol wedi eu cynnwys yn y costau cyffredinol a amcangyfrifir uchod ar gyfer llunio Cynllun Datblygu Strategol drwy CBC.

120. Ar sail model ar gyfer y De-ddwyrain, nododd RIA Deddf Cynllunio (Cymru) strwythur staffio rhagdybiedig i lunio Cynllun Datblygu Strategol. Roedd hyn yn cynnwys:
- Pennaeth y Cynllun Datblygu Strategol x 0.5
  - Prif Swyddog x 2
  - Uwch-swyddogion x 2
  - Swyddog Cynllunio
  - Cymorth Gweinyddol

### Swyddogaethau Trafnidiaeth

121. Bydd y Rheoliadau sy'n sefydlu CBCau yn cynnwys y fath ddarpariaeth sy'n gwneud CBC yn gyfrifol am y swyddogaeth o ddatblygu Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol. Bydd yn ofynnol i bob CBC lunio Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn lle'r cynlluniau trafndiaeth lleol a gynhyrchir gan awdurdodau lleol unigol o dan Ddeddf Trafnidiaeth 2000.

122. Yn yr un modd â'r swyddogaeth cynllunio strategol, nid yw costau staff ar gyfer CBC yn cynnwys costau ar gyfer cyflawni unrhyw un o'r swyddogaethau penodol. Wrth ystyried y gofynion posibl ar gyfer cyflawni'r swyddogaethau hyn drwy CBC, rhagdybir y bydd angen tîm bach sy'n cynnwys:

- Pennaeth Trafnidiaeth – cyfwerth â Gradd 7 y gwasanaeth sifil
- Uwch-reolwr Trafnidiaeth – cyfwerth â phwynt 43 ar raddfa gyflog y Cyd-gyngor Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Llywodraeth Leol
- Rheolwr – cyfwerth â phwynt 35 ar raddfa gyflog y Cyd-gyngor Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Llywodraeth Leol
- Cymorth Gweinyddol – cyfwerth â phwynt 17 ar raddfa gyflog y Cyd-gyngor Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Llywodraeth Leol.

123. Mae Tabl 13 yn nodi'r costau staff. Yn flaenorol, o ran costau staff craidd CBC, rydym wedi nodi ystod o gostau ar sail penderfyniadau unigol posibl CBC ynghylch materion staffio. O ran y swyddogaethau trafndiaeth rhanbarthol, mae'n amlwg y bydd dewisiadau i CBC o ran sut y cyflogir staff (ar fenthyg, secondiad neu gontract uniongyrchol) a lle y byddant wedi eu lleoli, ond at ddibenion yr RIA rydym yn rhagdybio y bydd ar CBC angen i'r tîm rhanbarthol weithio'n llawnamser. Mae unrhyw gostau ychwanegol o ran adeiladau wedi eu hystyried fel rhan o'r costau 'Adeiladau / Gweinyddol etc.' uchod.

**Tabl 13 – Costau Swyddogaethau Trafnidiaeth**

<b>Cyflogai</b>	<b>Amcangyfrif</b>
Pennaeth Trafnidiaeth	£80,900
Uwch-reolwr Trafnidiaeth	£59,300
Rheolwr	£49,200
Cymorth Gweinyddol	£31,000
	<b>£220,400</b>

124. Byddai angen £250,000 ychwanegol y flwyddyn am y ddwy flynedd gyntaf o arfer y swyddogaeth trafniadaeth (gan ddechrau ym mlwyddyn 2) ar bob CBC i gomisiynu cymorth ymgynghori i ddatblygu cynllun trafniadaeth ac i gynnal ymgynghoriad ar y cynllun trafniadaeth, ei gyfieithu a'i gyhoeddi. Ar ôl llunio'r cynllun, bydd costau ar gyfer datblygu, darparu a monitro'r rhaglen. Nid yw'r gost sy'n gysylltiedig â chyflawni'r cynllun trafniadaeth wedi ei gynnwys yn yr RIA hwn oherwydd bydd yn dibynnu ar benderfyniadau'r CBC, sef penderfyniadau na ellir eu rhag-weld ar hyn o bryd.

125. Yn yr un modd â'r swyddogaeth Cynllun Datblygu Strategol, rhagdybir mai ychydig o gostau, os o gwbl, a gaiff eu hysgwyddo yn y flwyddyn gyntaf ar gyfer cyfnod yr RIA hwn, felly bydd y costau sy'n weddill yn cael eu gwasgaru dros Flynyddoedd 2 i 6. Cyfanswm y gost o arfer y swyddogaethau trafniadaeth drwy CBC yw £1,601,500 dros flynyddoedd 2 i 6.

#### Datblygu Economaidd

126. Rhoddir pŵer i CBCau gynnal gwaith datblygu economaidd ar lefel ranbarthol. Y bwriad yw galluogi awdurdodau lleol i drosglwyddo trefniadau presennol ar gyfer ymgymryd â datblygu economaidd ar lefel ranbarthol drwy, er enghraifft, y bargeinion dinas a'r bargeinion twf, pe bai'r prif gynghorau cyfansoddol yn dewis gwneud hynny. Gan hynny, gellid dadlau nad yw'n bosibl rhoi cost ar gyfer y maes swyddogaeth hwn gan ei fod yn dibynnu ar y penderfyniadau a wneir gan bob CBC o ran ymgorffori gweithgarwch o'r fath.

127. Fodd bynnag, drwy gydol yr RIA hwn rydym wedi ceisio nodi ystod o gostau posibl i CBC ymgymryd â'i swyddogaethau ar lefel ranbarthol, ac mae'r bwriad polisi yn y maes hwn yn glir, er mai pob CBC fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol. Mae'n bosibl nodi'r amcangyfrif isaf yn yr achos hwn, oherwydd pe bai prif gynghorau a'u partneriaid yn dewis peidio â throsglwyddo trefniadau presennol i CBC ac i beidio â defnyddio'r pŵer, ni fydd unrhyw gostau ychwanegol. Felly yr amcangyfrif isaf fyddai sero.

128. O ran y gost uchaf posibl, yn Opsiwn 1 rydym wedi ystyried cost gyfartalog gweinyddu trefniadau'r bargeinion dinas a'r bargeinion twf presennol fel procsi defnyddiol ar gyfer y gost o ymgymryd â datblygu economaidd ar sail ranbarthol – £690,800. Credwn y bydd hyn hefyd yn

gweithredu fel procsi defnyddiol ar gyfer yr amcangyfrifon uchaf o'r gost o ymgymryd â datblygu economaidd drwy CBC. Dylid nodi y bydd unrhyw gostau yn dibynnu ar benderfyniadau'r CBC, gan gynnwys penderfyniadau ynghylch faint o ddatblygu economaidd a wneir ar lefel ranbarthol, strwythurau staffio a modelau swyddfa. Gall hefyd fod arbedion effeithlonrwydd yn sgil cyflawni swyddogaethau lluosog drwy un strwythur.

129. At ddibenion yr RIA hwn ac yn unol â'r amcangyfrifon costau sydd wedi eu cynnwys yn Opsiwn 1, rydym wedi amcangyfrif bod costau ymgymryd â datblygu economaidd drwy CBC yn amrywio o £0 i £690,800 y flwyddyn. At ddibenion yr RIA hwn, rydym wedi gwneud rhagdybiaeth ar gyfer yr ystod uchaf y bydd y fargen ddinesig a'r fargen werdd bresennol yn trosglwyddo i'r CBC (ond nodwn mai penderfyniad ar gyfer pob CBC yw hwn).
130. Ni fydd y CBC yn dechrau arfer y swyddogaeth Llesiant Economaidd tan flwyddyn 2. Mae hyn y caniatáu mwy o amser i'r CBCau sefydlu eu trefniadau llywodraethu craidd ac ystyried trosglwyddo'r swyddogaethau cyn ymgymryd ag unrhyw weithgarwch. Felly, mae'n debygol y bydd uchafswm y gost i'r CBC ei hun ym Mlwyddyn 1 yn sylweddol is os nad yn sero. Fodd bynnag, bydd y gweithgarwch hwn yn parhau ar sail ranbarthol hyd at y cyfnod trosglwyddo. At ddibenion Opsiwn 2 yn yr RIA hwn, rydym wedi darparu ar gyfer yr ystod uchaf o ran y gost sy'n gysylltiedig â pharhau â'r trefniadau rhanbarthol presennol yn y flwyddyn gyntaf cyn y cyfnod trosglwyddo i'r CBC o flwyddyn 2 ymlaen.

### Costau Eraill

131. Yn ogystal â thrin CBCau fel rhan o'r 'teulu llywodraeth leol', y bwriad yw y bydd Rheoliadau CBC hefyd yn cymhwyso dyletswyddau 'corff cyhoeddus' craidd i CBCau. Mae hyn yn cynnwys cymhwyso dyletswyddau o dan y ddeddfwriaeth a ganlyn.
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
  - Deddf Cydraddoldeb 2010
  - Safonau'r Gymraeg
132. Mae RIAau blaenorol ar gyfer Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Safonau'r Gymraeg wedi ceisio nodi'r costau 'ychwanegol' i gyrff cyhoeddus, megis prif gynghorau, ar gyfer gweithredu'r dyletswyddau. Wrth ystyried sut y gallai'r dyletswyddau fod yn gymwys i CBCau fel gyrff corfforedig newydd, ac felly'r costau yn yr RIA hwn, rydym wedi ystyried beth y gallai hyn ei olygu i CBC pe bai'r dyletswyddau hyn yn cael eu cymhwyso ar wahân. Mae'r cyfrifiadau hyn wedi eu cynnwys er gwybodaeth yn Atodiad C.
133. Fodd bynnag, wrth ystyried cymhwyso'r costau hyn i CBCau fel gyrff corfforedig newydd, gellid dadlau y bydd modd ymgymryd â nifer o'r dyletswyddau ar yr un pryd, gan wneud hynny ar y cyd ac fel rhan o'r

swyddogaethau a freinir yn CBC. Yn ogystal, dylai cydymffurfio â dyletswyddau sector cyhoeddus ehangach o'r fath fod yn rhan annatod o ddyletswyddau cyrff cyhoeddus, yn enwedig cyrff newydd, yn yr un modd â chydymffurfio â deddfwriaeth iechyd a diogelwch, er enghraifft.

134. Gan hynny nid yw'r RIA yn ceisio rhoi cyfrif ar wahân am gostau o'r fath. Rhagdybir at ddiben yr RIA hwn y bydd arfer y dyletswyddau hynny yn rhan o swyddogaeth Corff Corfforedig CBC, ac mae'r costau wedi eu cynnwys yn yr ystod o gostau ar gyfer y swyddogaeth hon a roddir uchod.

### **Costau i Lywodraeth Cymru**

135. Mae adnoddau eisoes ar gael o fewn Llywodraeth Cymru ar gyfer monitro a chefnogi trefniadau llywodraethiant corfforaethol awdurdodau lleol. Mae hyn ar wahân i fonitro a chefnogi meysydd swyddogaeth penodol, ac yn ychwanegol atynt. Er y bydd rhai gofynion ychwanegol o ganlyniad i gyflwyno CBCau, mae'n debygol y gellir darparu ar gyfer hyn o fewn yr adnoddau presennol, yn enwedig gan y bydd CBCau i raddau helaeth yn ddarostyngedig i'r un ddeddfwriaeth a gofynion monitro ag awdurdodau lleol, neu i ddeddfwriaeth a gofynion monitro tebyg. Felly, nid yw'r RIA yn cynnwys unrhyw gostau parhaus i Lywodraeth Cymru sy'n gysylltiedig â monitro a chefnogi trefniadau llywodraethiant corfforaethol CBCau o ganlyniad i gyflwyno CBCau.

### **Datblygu Economaidd**

136. Fel y trafodwyd o dan Opsiwn 1, mae gan Lywodraeth Cymru adnoddau y mae'n eu defnyddio i hybu datblygu economaidd. Gellir defnyddio'r adnoddau hyn mewn ffordd hyblyg i gefnogi llywodraeth leol a sefydliadau eraill i gyflawni gweithgarwch datblygu economaidd ledled Cymru. Mae'r rhain wedi eu cysoni i raddau helaeth â phedwar rhanbarth arfaethedig CBCau ond maent hefyd yn defnyddio dull gweithredu lleol neu genedlaethol pan fo angen. Bydd modd defnyddio adnoddau o'r fath i weithio gydag unrhyw set o drefniadau rhanddeiliaid neu drefniadau rhanbarthol, ac ymateb iddynt, megis y trefniadau presennol hynny o dan Opsiwn 1 a'r rhai a gynigir yma o dan Opsiwn 2. Ar sail hyn nid ydym yn bwriadu cynnwys y costau hyn ar gyfer y naill opsiwn na'r llall, oherwydd ystyrir y bydd y costau yr un faint ni waeth pa ddull gweithredu a fabwysiedir.

### **Cynllunio Strategol**

137. Amcangyfrifodd RIA Deddf Cynllunio (Cymru)<sup>18</sup> y bydd angen adnoddau staff i gefnogi proses y Cynlluniau Datblygu Strategol ac amcangyfrifwyd bod ganddynt gost flynyddol barhaus o £57,800 ar gyfer pob ardal Cynllun Datblygu Strategol gan ddechrau ym mlwyddyn 2.

---

<sup>18</sup> [Deddf Cynllunio \(Cymru\) – Memorandwm Esboniadol](#)

## Trafnidiaeth

138. Fel y trafodwyd eisoes o dan Opsiwn 1, cydnabyddir bod cost ynghlwm wrth ymgysylltu effeithiol â phrif gynghorau wrth ddarparu trafndiaeth ledled Cymru. Mae gan Lywodraeth Cymru adnoddau y mae'n eu defnyddio i gefnogi'r gwaith o gyflawni swyddogaethau trafndiaeth. Gellir defnyddio'r adnoddau hyn mewn ffordd hyblyg i gefnogi llywodraeth leol a sefydliadau eraill i gyflawni gweithgarwch ledled Cymru. Er nad yw wedi ei gysoni ag unrhyw drefniadau rhanbarthol penodol ar hyn o bryd, bydd modd defnyddio adnoddau o'r fath i weithio gydag unrhyw set o drefniadau rhanddeiliaid neu drefniadau rhanbarthol, ac ymateb iddynt, megis Cyd-awdurdodau Trafnidiaeth o dan Opsiwn 1 neu CBCau o dan Opsiwn 2. Ar sail hyn nid ydym yn bwriadu cynnwys y costau hyn ar gyfer y naill opsiwn na'r llall, oherwydd ystyrir y bydd y costau yr un faint ni waeth pa ddull gweithredu a fabwysiedir.

## Costau llunio Rheoliadau sy'n sefydlu CBCau

139. Cydnabyddir y bydd costau'n gysylltiedig â datblygu'r Rheoliadau CBCau, ac ag ymgysylltu arnynt ag awdurdodau lleol a rhanddeiliaid eraill. Byddai'r costau (fel y'u nodir yn Nhabl 14) yn rhai untro ac, yn unol â'r dull gweithredu mewn manau eraill yn yr RIA hwn, byddent ym mlwyddyn ariannol 2020-21. Mae'n werth nodi bod y costau hyn yn cynnwys costau sy'n gysylltiedig â datblygu'r elfennau hynny o'r Rheoliadau sy'n gysylltiedig â phob un o'r tri maes swyddogaeth sydd i'w cynnwys yn y CBC. Gan fod y Rheoliadau ar gyfer pob CBC rhanbarthol yr un fath i raddau helaeth, y costau a amlinellir yn Nhabl 13 isod yw'r costau i Lywodraeth Cymru ar gyfer llunio'r set o Rheoliadau CBCau ac nid pob rheoliad unigol.

**Tabl 14 – y Costau i Lywodraeth Cymru ar gyfer llunio Rheoliadau i sefydlu CBCau**

<b>Cyflogai</b>	<b>Band Cyflog LIC</b>	<b>Nifer y Diwrnodau Sydd eu Hangen</b>	<b>Cyfanswm</b>
Dirprwy Gyfarwyddwr	SCS1	5	£2,400
Gradd 7	G7	20	£6,700
SEO	SEO	20	£5,200
Cyfreithiwr	G7	50	£16,900
Cyfieithu	SEO	4	£1,000
			<b>£32,200</b>

## Canllawiau

140. Cafodd y costau cysylltiedig â llunio canllawiau i gefnogi'r gwaith o sefydlu a rhedeg CBCau eu hystyried yn RIA Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 ac felly ni ydynt wedi eu cynnwys yn yr RIA hwn. Canfu Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 mai £9,000 fyddai cost llunio'r canllawiau dros y cyfnod rhwng 2020 a 2021.

## Costau i Eraill

141. Fel gydag Opsiwn 1, mae'n bosibl y bydd cyrff a sefydliadau eraill yn mynd i gostau o dan Opsiwn 2 o ganlyniad i sefydlu cyrff rhanbarthol newydd megis CBC. Er enghraifft, y costau i'r rheini a allai gael eu cyfethol i CBC neu fynychu fel cynghorwyr. Er y bydd CBC yn gallu cyfethol neu wahodd mynychwyr, a disgwylir y bydd CBC yn cynnwys eraill wrth arfer ei ddyletswyddau, penderfyniadau i bob CBC yn unigol yw'r rhain, ac nid yw'n bosibl i nodi'r holl bartneriaid posibl neu i ragweld graddau'r cyfranogiad hwn. Hefyd, bydd CBCau yn ddarostyngedig i'r dyletswyddau o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a gofynion Safonau'r Gymraeg. Gan hynny, bydd CBCau yn ddarostyngedig i rôl y Comisiynwyr priodol, a gallai hynny beri cost ychwanegol wrth fonitro cydymffurfiaeth.
142. Fel y nodir yn y paragraff uchod, bydd CBCau yn ddarostyngedig i'r dyletswyddau llesiant o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015. Mae'n dilyn felly y bydd dyletswyddau a phwerau Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol o ran cyrff cyhoeddus a restrir yn adran 6 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn estyn i'r CBCau.
143. Mae'r Comisiynydd yn cytuno'n flynyddol â Llywodraeth Cymru ar y cyllid angenrheidiol i gyflawni ei rôl a'i swyddogaethau llawn. Mae'r Comisiynydd yn gyfrifol am wneud trefniadau i gyflawni ei rolau a'i swyddogaethau o fewn y paramedrau cyllido hynny. At ddiben yr RIA drafft hwn rydym wedi rhagdybio y byddai'r baich ychwanegol o fonitro ac asesu'r CBCau yn cael ei gyflawni o fewn y trefniadau cyllido presennol, ac yn unol â'r dull gweithredu a nodir o dan Opsiwn 1, nid ydym wedi cynnwys unrhyw gostau ychwanegol yn yr RIA hwn. Mae'r Comisiynydd wedi codi pryderon gyda Llywodraeth Cymru am y costau ychwanegol sy'n gysylltiedig ag arfer ei rôl mewn perthynas â CBCau, ond nid oes unrhyw ffigurau manwl wedi cael eu darparu fel rhan o'r ymgynghoriad i'w gynnwys yn yr RIA hwn.
144. O ran Comisiynydd y Gymraeg, fel y nodir o dan Opsiwn 1, ar hyn o bryd mae 127 o gyrff yn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg, ac mae gan dros 300 o gyrff eraill gynlluniau iaith statudol neu anstatudol, sydd oll yn cael eu monitro a'u gorfodi gan Gomisiynydd y Gymraeg. Mae hefyd yn bwysig nodi bod swyddogaethau CBC eisoes yn swyddogaethau prif gynghorau yn hytrach nag yn rhai newydd. At ddiben yr RIA hwn, fel gydag Opsiwn 1, nid yw'r baich ychwanegol o lunio hysbysiadau a monitro cydymffurfiaeth yn cael ei ystyried yn faich ychwanegol sylweddol i'r Comisiynydd, ac nid oes unrhyw gostau ychwanegol wedi eu cynnwys.
145. Yn ogystal â'r uchod, ac yn unol â'r dull o drin CBCau fel rhan o 'deulu llywodraeth leol', bydd CBCau hefyd yn ddarostyngedig i'r fframwaith foesegol ac yn dod o fewn cylch gwaith Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru fel y nodir yn Neddf Ombwdsmon

Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019. Yn sgil natur ymatebol rôl yr Ombwdsmon yn ymateb i gwynion am gamweinyddu a methiant mewn gwasanaethau neu honiadau o dorri cod ymddygiad, nid yw'n bosibl darparu amcangyfrif manwl o'r gost ychwanegol bosibl i'r Ombwdsmon sy'n gysylltiedig â dod â CBCau o fewn ei gylch gwaith. Yn yr un modd â Chomisiynydd y Gymraeg uchod, credwn na fyddai'r faich ychwanegol hon i'r Ombwdsmon yn cael ei hystyried yn sylweddol ac nid oes unrhyw gostau ychwanegol wedi cael eu cynnwys yn yr RIA hwn.

## **Manteision i Lywodraeth Leol**

146. Bydd CBCau yn cynnig offeryn pwerus i brif gynghorau ymateb i heriau'r dyfodol, ac yn cefnogi amcanion y cynghorau eu hunain i wella gwasanaethau i'r cyhoedd a symleiddio partneriaethau, gan gynnwys fel rhan o'r ymateb i bandemig COVID-19 a'r adferiad ohono.
147. Bydd sefydlu'r CBC drwy reoliadau yn gyfle i sicrhau mwy o gysondeb a llai o gymhlethdod yn y trefniadau llywodraethiant rhanbarthol yn y tri maes swyddogaeth a gynigir. Mae'r CBC yn cynnig cyfle i symleiddio'r trefniadau cydweithio presennol; gan felly ddarparu'r eglurder a'r cysondeb y mae ar awdurdodau lleol eu heisiau, lleihau cymhlethdod ac osgoi dyblygu ymdrech ac adnoddau, a darparu'r catalydd i gyflymu ac ehangu trefniadau cydweithredol.
148. Ar hyn o bryd, rhaid wrth lawer iawn o amser ac ymdrech i greu ac ail-greu'r trefniadau gweithio ymarferol ar gyfer cydweithio. Er enghraifft, nodi'r awdurdod a fydd yn arwain ar yr ochr ariannol, pwy fydd y cyflogwr a pha bartneriaid fydd angen eu cynnwys. Un o brif fanteision y model CBC yw y bydd CBCau yn darparu strwythur parod (corff corfforaethol) ar gyfer cydweithredu ac y bydd modd iddynt gyflogi eu staff eu hunain, dal asedau a chyllid. Mae'r model CBC yn darparu system ar gyfer cydweithredu sydd ag eglurder ynghylch y trefniadau llywodraethiant a rolau a chyfrifoldebau priodol yr aelodau.
149. Mae llawer o amser arweinwyr a gorbenion corfforaethol hefyd ynghlwm wrth ddatblygu a rhedeg pob un o'r dulliau cydweithredu unigol o dan Opsiwn 1 ac ynghlwm wrth ddelio â'r cymhlethdod a ddaw yn sgil trefniadau ar wahân. Mae'r dull CBC yn cynnig cyfle i resymoli dulliau o'r fath a symleiddio ymatebion ar y cyd a chydweithredol i'r heriau y bydd gwasanaethau cyhoeddus yn eu hwynebu yn y dyfodol.
150. Mae'r model CBC yn darparu un system gyson, a sefydlir mewn statud, ar gyfer cyflawni swyddogaethau strategol allweddol ar raddfa pan fo'n gwneud synnwyr i wneud hynny. Bydd CBCau yn galluogi llywodraeth leol i ddatblygu dulliau sy'n addas ar gyfer ymgorffori'r ystod eang o weithgareddau amrywiol a gyflawnir mewn ymdrechion i sicrhau datblygu economaidd yn y ffyrdd mwyaf syml posibl. Hefyd, mae sefydlu'r CBC drwy statud yn rhoi'r sicrwydd sydd ei angen ar gyfer cynllunio strategol a chyflawni yn y tymor hwy.



151. Mae CBCau yn rhoi arweinwyr prif gynghorau wrth wraidd y broses benderfynu gan sicrhau eu bod yn gallu adlewyrchu anghenion eu cymunedau a'u bod yn parhau i fod yn atebol yn ddemocrataidd drwy eu hawdurdodau lleol am eu penderfyniadau. Mae'r system CBC fel y'i nodir yn y Rheoliadau yn caniatáu cryn hyblygrwydd i brif gynghorau greu eu trefniadau eu hunain o fewn y model CBC er mwyn sicrhau eu bod yn gallu adlewyrchu'r anghenion lleol hynny, ac ymateb iddynt.
152. Datblygwyd y Rheoliadau hefyd mewn ffordd sy'n sicrhau bod CBCau yn cael eu trin fel aelod o'r 'teulu llywodraeth leol' ac felly'n ddarostyngedig i raddau helaeth i'r un pwerau a dyletswyddau ag awdurdodau lleol yn y ffordd y maent yn gweithredu. Y bwriad wrth lunio ffordd o weithredu'r CBCau oedd peidio â chreu gweithdrefnau neu rwymedigaethau newydd ac anghyfarwydd a llunio'r un ddeddfwriaeth, neu ddeddfwriaeth debyg i raddau helaeth, ag sy'n berthnasol i lywodraeth leol.
153. Bydd CBCau hefyd o fudd i awdurdodau lleol drwy:
- ei gwneud yn bosibl cynllunio a darparu gwasanaethau ar raddfa sy'n sicrhau'r manteision mwyaf i ddefnyddwyr gwasanaethau
  - gwireddu potensial cydymdrech i drechu heriau cyffredin a chynnig atebion arloesol
  - ei gwneud yn bosibl cydweithredu i feithrin y sgiliau arbenigol sydd eu hangen mewn meysydd gwasanaeth allweddol
  - rhesymoli'r trefniadau presennol, osgoi dyblygu a chanolbwyntio ar ffordd gyson o reoli trefniadau cydweithredol yn ddemocrataidd
  - cryfhau arweinyddiaeth, atebolrwydd a democratiaeth ar y cyd
154. Mae CBCau yn cynnig offeryn pwerus i awdurdodau lleol gydweithio ac ar raddfa i gynllunio a chyflawni'r swyddogaethau strategol allweddol a fydd yn angenrheidiol i ymateb i'r pandemig COVID-19 diweddar ac i adfer ohono. Bydd y CBC yn adeiladu ar yr ymddygiadau, yr ymrwymadau a'r cydweithredu newydd sydd wedi dod i'r amlwg yn ystod y cyfnod hwn gan helpu i ddatblygu'r trefniadau gweithio sefydliadol trawsffurfiol ymhellach, ac i'w cynnal at y dyfodol. Bydd CBCau yn helpu i gysoni'r gwasanaethau rheng flaen unigol a ddarperir yn y gymuned â'r camau cydweithredol a strategol sydd eu hangen ar raddfa ranbarthol i ysgogi adferiad, ailadeiladu ac ailfuddsoddi mewn economïau lleol modern.

### **Manteision i Lywodraeth Cymru**

155. Mae sefydlu CBC ar gyfer cyflawni swyddogaethau datblygu economaidd, cynllunio strategol a chynllunio trafndiaeth rhanbarthol yn darparu strwythur effeithiol a chyson i gefnogi Llywodraeth Cymru wrth iddi ddatblygu a gweithredu polisiau cenedlaethol a rhanbarthol.
156. Mae'r CBCau yn darparu dull cyson ar gyfer llywodraeth leol o ran llywodraethiant rhanbarthol strategol, cynllunio a darparu gwasanaethau. Mae'r model CBC felly'n cynnig manteision i Lywodraeth Cymru o ran

ymgysylltu, cynllunio a darparu gwasanaethau gyda llywodraeth leol ar lefel ranbarthol mewn ffordd fwy cydlynol, gan osgoi dyblygu ymdrech a chynyddu'r effaith bosibl. Yn achos Cynlluniau Datblygu Strategol, mae'r dull CBC hefyd yn cynnal ac yn atgyfnerthu rôl Awdurdodau Parciau Cenedlaethol yn y broses.

157. Bydd Llywodraeth Cymru yn elwa o allu datblygu mapiau ffyrdd a rennir ar gyfer cydweithio â'r CBCau i gyflawni blaenoriaethau datblygu economaidd gyda'r CBCau ar raddfa briodol, gan eu cysoni â dulliau cynllunio trafnidiaeth a defnydd tir i ddatblygu economïau rhanbarthol llwyddiannus ac annog twf lleol. Mae CBCau yn cynnig cyfrwng i Lywodraeth Cymru fuddsoddi a darparu cyllid grant i gyflawni gweithgareddau ar raddfa er mwyn gwireddu amcanion economaidd rhanbarthol.
158. Mae Ffyniant i Bawb: Y Strategaeth Genedlaethol yn ymrwymo Llywodraeth Cymru i ddarparu model datblygu economaidd ar sail ranbarthol. Nod y mandad trawslywodraethol hwn yw cyflawni gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac mae'n ei gwneud yn ofynnol integreiddio polisi, rhaglenni ac ymyriadau i fynd i'r afael yn well ag anghydraddoldebau ac i gefnogi twf cynaliadwy a chynhwysol ym mhob rhan o Gymru. Mae CBCau yn darparu system i Lywodraeth Cymru gyflawni'r dull rhanbarthol hwn, gan ei gysoni'n llawn â'r swyddogaethau cynllunio strategol a chynllunio trafnidiaeth sy'n helpu i ddarparu sail ar gyfer datblygu economaidd.
159. Pwysleisiodd yr ymgynghoriad diweddar ar 'Fframwaith Buddsoddi Rhanbarthol yng Nghymru – Diogelu Dyfodol Cymru'<sup>19</sup> yr angen am gorff sydd â'r gallu cyfreithiol a'r gallu gweithredol i weithio ar lefel ranbarthol i gefnogi'r broses o ddatganoli cyllid a phenderfyniadau yn nes at y bobl a ddylai elwa ohonynt.
160. Nododd Adolygiad yr OECD o Wahanol Haenau Llywodraethu: Dyfodol Datblygu a Buddsoddi Rhanbarthol yng Nghymru<sup>20</sup> y gallai cyflwyno cyfrwng fel y CBC atgyfnerthu gallu is-genedlaethol i gyflawni cynllunio datblygu rhanbarthol, gan gysoni â strategaeth datblygu rhanbarthol genedlaethol ehangach a chydgasglu gofynion cynllunio perthnasol eraill.
161. Nododd yr OECD hefyd y gallai'r CBCau gyfrannu at lywodraethiant aml-lefel datblygu a buddsoddi rhanbarthol yng Nghymru mewn sawl ffordd. Er enghraifft, drwy ddod ag awdurdodau lleol at ei gilydd o fewn ardal benodol, mae CBCau yn hwyluso ymyrraeth ar lefel ranbarthol, gan sicrhau gweithredu ar raddfa.
162. Bydd y CBCau hefyd yn manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau rhanbarthol a lleol, gan helpu Llywodraeth Cymru a phartneriaid sy'n cymryd rhan i gyfrannu at Nodau Llesiant Cymru.

---

<sup>19</sup> [Fframwaith Buddsoddi Rhanbarthol yng Nghymru – Diogelu Dyfodol Cymru](#)

<sup>20</sup> [Dyfodol Datblygu a Buddsoddi Rhanbarthol yng Nghymru](#)

Mae'r model CBC hefyd yn rhoi cyfle i symleiddio'r ddeddfwriaeth a'r dulliau cydweithredu presennol o fewn Llywodraeth Cymru sy'n darparu ar gyfer trefniadau cydweithio rhanbarthol. Yn y tymor hwy, mae'r CBC yn cynnig cyfle i archwilio (yn amodol ar gytundeb a deddfwriaeth) y posibilrwydd o ddatganoli cyfrifoldebau ychwanegol i awdurdodau lleol.

### **Manteision i Eraill**

163. Mae caniatáu ar gyfer creu un system gyson ar gyfer cydweithredu yn darparu opsiwn ychwanegol i brif gynghorau sicrhau cynaliadwyedd ac ansawdd y gwasanaethau a ddarperir i'w dinasyddion.
164. Mae model cydweithredu syml a chyson rhwng prif gynghorau'n rhoi cyfle i symleiddio trefniadau cydweithredol ar draws y sector cyhoeddus. Mae cynrychiolwyr cyrff gwasanaethau cyhoeddus yn aelodau o sawl bwrdd a bydd CBCau yn cynnig cyfle i leihau nifer y rhyngweithiadau; rhywbeth y mae'r sector cyhoeddus drwyddo draw wedi bod yn galw'n gyson amdano. Mae'r hyblygrwydd yn y Rheoliadau yn darparu ar gyfer aelodaeth ehangach o'r CBCau, os yw'n briodol, gan gynnwys cyrff neu sefydliadau gwasanaethau cyhoeddus eraill. Byddai hynny'n cynnig manteision o ran ymgysylltu â phartneriaid a datblygiad strwythurau'r presennol a'r dyfodol, megis y bargeinion dinesig a'r bargeinion twf.

### **Cymharu Costau'r Opsiynau**

165. Mae'r dadansoddiad cost a budd wedi ceisio dangos costau Opsiwn 1 ac Opsiwn 2. Aseswyd y ddau opsiwn gan ddefnyddio'r wybodaeth orau a oedd ar gael i Lywodraeth Cymru. Cydnabyddir fodd bynnag bod llawer o'r costau sy'n gysylltiedig â gweithredu CBC yn destun penderfyniadau lleol, ac felly mae'n bosibl y byddant yn amrywio o'r hyn a nodir yma. Cydnabyddir hefyd, yn arbennig ar gyfer Opsiwn 1, bod yr opsiwn 'gwneud dim' yn cynnwys costau ar gyfer dull Paneli Cynllunio Strategol gwirfoddol, ac felly byddai'n destun disgresiwn lleol, ac o bosibl na fyddai'n cael ei ysgwyddo, ond at ddibenion yr RIA hwn, ar sail yr uchelgais ar gyfer gwaith rhanbarthol gwirfoddol gan lywodraeth leol (fel y dangosir gan y Fargen Ddinesig a'r Fargen Werdd) y byddai'n cael ei ysgwyddo. Fodd bynnag, mae'n werth nodi, fel rydym eisoes wedi dweud, byddai pwyslais newydd ar eu sefydlu yn sgil y pwyslais ar gynllunio rhanbarthol yn y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol.
166. Ar gyfer y ddau opsiwn, mae'r RIA yn cyflwyno ystod bosibl o gostau dros y cyfnod o 6 blynedd. Mae Tabl 15 yn cymharu'r costau hyn ac yn dangos y gost ychwanegol a amcangyfrifir ar gyfer sefydlu CBCau dros y cyfnod hwnnw o 6 blynedd.

**Tabl 15 – Cymharu costau Opsiwn 1 ac Opsiwn 2**

<b>Cost</b>	<b>Yr Amcangyfrif Lleiaf</b>	<b>Yr Amcangyfrif Mwyaf</b>
Opsiwn 1	£10,174,100	£16,235,400
Opsiwn 2	£9,974,800	£16,023,500
<b>Arbedion Net ar gyfer Opsiwn 2</b>	<b>£199,300</b>	<b>£211,900</b>

167. Felly, amcangyfrifir bod yr arbedion cost net o sefydlu CBCau yn amrywio rhwng £199,300 a £211,900 dros y cyfnod o 6 blynedd hyd at fis Mawrth 2027<sup>21</sup>. Fel y nodir drwy'r RIA hwn, mae hyn yn seiliedig ar y tybiaethau clir a wneir o fewn yr RIA hwn, yn arbennig bod Opsiwn 1 yn adlewyrchu sefyllfa a fyddai wedi digwydd pe na bai CBCau wedi cael eu sefydlu, ac ar yr hyblygrwydd ar gyfer penderfyniadau lleol ar gyfer Opsiwn 1 ac Opsiwn 2.

168. Priodolir yr arbediad a amlinellir uchod yn bennaf i'r gost ychwanegol angenrheidiol i gwblhau Cynlluniau Datblygu Strategol o dan Opsiwn 1 yn ogystal ag amser aelodau i fynychu cyfarfodydd ar bob un o'r tri maes swyddogaeth.

169. Mae opsiwn 2 hefyd yn cynnig budd anariannol sef darparu mwy o gydlyniant a llai o gymhlethdod yn y trefniadau llywodraethiant rhanbarthol. Mae'n cefnogi'r broses o gysoni'r trefniadau cydweithredu presennol mewn un dull i alluogi penderfyniadau mwy strategol a chydgyssylltiedig ar raddfa. Bydd CBCau yn helpu prif gynghorau i gysoni'r gwasanaethau rheng flaen unigol a ddarperir yn y gymuned â'r camau cydweithredol a strategol sydd eu hangen ar raddfa ranbarthol i ysgogi adferiad o COVID-19, ailadeiladu ac ailfuddsoddi mewn economïau lleol modern.

170. Unwaith y bydd CBCau wedi eu sefydlu, gallant fod yn gatalydd ar gyfer mwy o gydweithredu mewn nifer o feysydd lle gall dull mwy strategol o gynllunio a darparu gwasanaethau sicrhau arbedion effeithlonrwydd drwy ddarparu gwasanaethau ar raddfa ac yn fwy effeithiol ar gyfer dinasyddion a chymunedau.

## **Yr Opsiwn a Ffefrir**

171. Mae Opsiwn 1 yn cynnig dim newid. Ni fydd manteision un system gydgyssylltiedig a chyson ar gyfer cydweithredu yn cael eu gwireddu.

172. Byddai Opsiwn 2 yn darparu un system gydgyssylltiedig a chyson ar gyfer cydweithredu, gan ymateb i argymhellion y Gweithgor. Opsiwn 2 yw'r opsiwn a ffefrir.

<sup>21</sup> Fel y nodir yn y dadansoddiad o Opsiwn 2, nid yw costau CBC ar gyfer blwyddyn 1 yn cynnwys y costau economaidd parhaus (Y Fargen Ddinesig / Y Fargen Werdd) yr amcangyfrif eu bod yn £690,800 ac y byddai'n aros gyda'r Prif Gynghorau.

## 8. Ymgynghori

Gweler adran 5.

## 9. Asesu'r Gystadleuaeth

Ni nodwyd unrhyw effaith ar y gystadleuaeth wrth ddatblygu'r Rheoliadau hyn.

## 10. Adolygu ar ôl gweithredu

- 10.1 Fel rhan o'r teulu llywodraeth leol, bydd CBCau yn ddarostyngedig i nifer o ofynion archwilio a byddant yn gweithredu fel rhan o'r gyfundrefn perfformiad a llywodraethiant yn Neddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Bydd gan y swyddogaethau cynllunio strategol a thrafnidiaeth hefyd fesurau perfformiad a gofynion monitro ar wahân naill ai o fewn y Rheoliadau sefydlu neu'r ddeddfwriaeth berthnasol sy'n cael ei throsglwyddo. Bydd hefyd yn ofynnol i'r CBCau lunio cyfrifon blynyddol.
- 10.2 Bydd effeithiolrwydd CBCau ac felly'r Rheoliadau sy'n sefydlu CBCau yn cael eu monitro fel rhan o'r prosesau blynyddol hyn ac, os bydd angen, mae'r fframwaith yn y Ddeddf yn caniatáu i reoliadau diwygio gael eu gwneud.
- 10.3 Mae'n bwysig nodi y bydd defnyddio'r dull CBC yn effeithiol yn dibynnu ar y prif gynghorau o dan sylw a'r penderfyniadau unigol y mae pob CBC yn eu gwneud ynghylch sut y caiff ei redeg a sut y mae'n cyflawni ei swyddogaethau. Mater i'r CBCau eu hunain felly fydd monitro a rheoli effeithiolrwydd y trefniadau hyn a sicrhau'r effeithiolrwydd gorau posibl.

## Atodiad A – Aseiad Effaith Rheoleiddiol (RIA) Cyfrifiadau Costau Staff

### Argostau

A1. Argostau yw unrhyw gostau ychwanegol sydd angen eu hystyried, yn ychwanegol at gyflogau, i gyllidebu costau cyflogaeth llawn aelod o staff. Mae argostau'n cynnwys y canlynol:

- Yswiriant Gwladol
- Pensiwn
- Lwfansau

A2. Ar gyfer pob cyfrifiad cost staff, mae 30% wedi ei ychwanegu ar gyfer argostau.

### Staff Llywodraeth Leol

A3. Mae costau staff llywodraeth leol yn seiliedig ar gytundeb [Ebrill 2018-20 y Cyd-gyngor Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Llywodraeth Leol](#)

A4. Mae pob prif gyngor yn pennu ei gyfraddau ei hun yn seiliedig ar raddfa gyflog y Cyd-gynor Cenedlaethol. I gyfrifo costau staff o dan lefel uwch brif swyddog, rydym wedi defnyddio cyfraddau cyflog o gytundeb y Cyd-gyngor Cenedlaethol sef:

- pwynt 17 o'r raddfa (£23,836) sy'n cyfateb i frig graddfa gyflog TS y gwasanaeth sifil
- pwynt 25 o'r raddfa (£28,785) sy'n cyfateb i frig graddfa gyflog EO y gwasanaeth sifil
- pwynt 35 o'r raddfa (£37,849) sy'n cyfateb i frig graddfa gyflog HEO y gwasanaeth sifil
- pwynt 43 o'r raddfa (£45,591) sy'n cyfateb i frig graddfa gyflog SEO y gwasanaeth sifil

A5. Mae'r uchod yn seiliedig ar [gyfraddau cyflog Llywodraeth Cymru 2019-20](#)

Tabl A1: Costau Staff Llywodraeth Leol

Rôl	Band Cyflog y Cyd-gyngor Cenedlaethol	Cyflog Blynnyddol	Cyflog Gros	Misol	Wythnosol	Dyddiol
Cymorth Gweinyddol	Pwynt 17	£23,836	£30,987	£2,582	£646	£129
Is-reolwr	Pwynt 25	£28,785	£37,421	£3,118	£780	£156
Rheolwr	Pwynt 35	£37,849	£49,204	£4,100	£1,025	£205
Uwch-reolwr	Pwynt 43	£45,591	£59,268	£4,939	£1,235	£247

## Uwch-swyddogion

### Uwch-swyddog

A6. Nid yw cytundeb y Cyd-gyngor Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Llywodraeth Leol yn estyn i uwch-swyddogion ac mae'r cyfraddau'n amrywio o gyngor i gyngor. Felly, gan ddilyn yr un dull gweithredu â'r RIA ar gyfer Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 pan gafodd ei chyflwyno i'r Senedd<sup>22</sup>, rydym wedi cyfrifo cyflog uwch-swyddogion ar sail yr hyn sy'n cyfateb i radd 7 y Gwasanaeth Sifil.

### Swyddog Statudol

A7. Nid yw cytundeb y Cyd-gyngor Cenedlaethol yn estyn i swyddogion statudol ac mae'r cyfraddau'n amrywio o gyngor i gyngor. Felly, rydym wedi cyfrifo cyflog swyddogion statudol ar sail yr hyn sy'n cyfateb i ddirprwy gyfarwyddwr y Gwasanaeth Sifil.

<sup>22</sup> [Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau \(Cymru\) – Memorandwm Esboniadol](#)

## Prif Weithredwyr

A8. Eto, defnyddiwyd datganiadau polisi cyflog 2019 i sefydlu cyflog cyfartalog ar gyfer Prif Weithredwr. Pan fo'r datganiad polisi cyflog yn darparu ar gyfer ystod cyflog, defnyddiwyd y ffigur canolrif.

*Tabl A2: Cyfrifo Costau Cyflog Prif Weithredwyr*

Sir	2019 (£)	Sir	2019 (£)
Ynys Môn	117,912	Gwynedd	110,802
Blaenau Gwent	103,684	Castell-nedd Port Talbot	136,008
Pen-y-bont ar Ogwr	134,476	Casnewydd	136,598
Caerffili	151,938	Sir Benfro	137,972
Caerdydd	180,423	Powys	136,490
Caerfyrddin	166,664	Abertawe	142,814
Ceredigion	108,975	Torfaen	111,278
Conwy	115,378	Bro Morgannwg	134,930
Sir Ddinbych	130,674	Wrecsam	113,415
Sir y Fflint	130,689	<b>Cyfartaledd</b>	131,638

A9. Yn seiliedig ar y ffigurau uchod, rhagdybiwyd mai £131,638 yw cyflog cyfartalog y Prif Weithredwr, gan gynnwys argostau o 30%, sef cyfanswm o £171,129.



Tabl A3: Costau Staff Uwch-swyddogion

Rôl	Band Cyflog LIC	Cyflog Gros Cyfartalog	Misol	Wythnosol	Dyddiol
Uwch-swyddog	G7	£80,887	£6,741	£1,685	£337
Swyddog Statudol	SCS1	£114,241	£9,520	£2,380	£476
Prif Weithredwr	Amh.	£171,129	£14,261	£3,565	£713

## Aelodau

A10. Mae costau aelodau etholedig o brif gynghorau yn seiliedig ar [adroddiad Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol 2019-20](#)

A11. Yn seiliedig ar y ffigurau yn yr adroddiad, rhagdybiwyd mai £48,148 yw cyflog cyfartalog Arweinydd, gan gynnwys argostau o 30%, sef cyfanswm o £62,592.

A12. Fel y trafodwyd ym mharagraff 3.9.1 o'r adroddiad:

*Yn 2009, daeth y Panel i'r casgliad y dylid ystyried bod aelodau'r Weithrediaeth yn gweithio oriau sy'n cyfateb i amser llawn (hyd at 40 awr yr wythnos), ond nid naw tan bump o reidrwydd.*

A13. Felly, ar gyfer costau cyflogau aelodau:

- Cyfrifwyd cyfraddau misol drwy rannu cyflog gros blyneddol â 12 mis
- Cyfrifwyd cyfraddau wythnosol drwy rannu cyfraddau misol â 4 wythnos
- Cyfrifwyd cyfraddau dyddiol drwy rannu cyfraddau wythnosol â 5 diwrnod
- Cyfrifwyd cyfraddau fesul awr drwy rannu cyfraddau wythnosol â 40 awr

Tabl A4: Costau Staff Aelodau

Rôl	Cyflog Gros Cyfartalog	Misol	Wythnosol	Dyddiol	Fesul Awr
Aelod Etholedig	£62,592	£5,216	£1,304	£261	£33

## Llywodraeth Cymru

A14. Mae costau staff Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar gostau bandiau cyflog cyfartalog y gwasanaeth sifil 2019-20. Cyfrifwyd y rhain ar sail [cyfraddau cyflog 2019-20](#)

A15. Ar gyfer yr holl gostau cyflog, ar gyfer Llywodraeth Cymru a llywodraeth leol:

- Cyfrifwyd cyfraddau misol drwy rannu cyflog gros blynyddol â 12 mis
- Cyfrifwyd cyfraddau wythnosol drwy rannu cyfraddau misol â 4 wythnos
- Cyfrifwyd cyfraddau dyddiol drwy rannu cyfraddau wythnosol â 5 diwrnod

Tabl A5: Costau Staff Llywodraeth Cymru

Rôl	Band Cyflog LIC	Cyflog Gros Cyfartalog	Misol	Wythnosol	Dyddiol
Cymorth Gweinyddol	TS	£30,741	£2,562	£640	£128
Is-reolwr	EO	£37,775	£3,148	£787	£157
Rheolwr	HEO	£48,655	£4,055	£1,014	£203
Uwch-reolwr	SEO	£62,678	£5,223	£1,306	£261
Uwch-swyddog	G7	£80,887	£6,741	£1,685	£337
Swyddog Statudol	SCS1	£114,241	£9,520	£2,380	£476

## Atodiad B – Crynodeb o Gostau Blynyddol

B1. Fel y nodir ym Mharagraff 29, caiff yr holl ffigurau eu talgrynnu i'r can punt agosaf. O ganlyniad, mae'n bosibl y bydd y ffigurau yn y tablau crynodeb hyn yn amrywio o'r costau blynyddol manylach a ddangosir yn yr RIA ei hun.

Tabl B1: Crynodeb o'r holl Amcangyfrifon Lleiaf ar gyfer Opsiwn 1

Math o Gost	Blwyddyn 1	Blwyddyn 2	Blwyddyn 3	Blwyddyn 4	Blwyddyn 5	Blwyddyn 6	Cyfanswm
Datblygu Economaidd	£0	£690,800	£690,800	£690,800	£690,800	£690,800	<b>£3,454,000</b>
Trafnidiaeth	£165,100	£635,400	£635,400	£385,400	£385,400	£385,400	<b>£2,592,100</b>
Swyddogaethau'r Cynllun Strategol	£0	£760,000	£760,000	£760,000	£760,000	£760,000	<b>£3,800,000</b>
Amser Aelodau	£500	£500	£500	£500	£500	£500	<b>£3,000</b>
Llunio'r Rheoliadau	£36,000	£0	£0	£0	£0	£0	<b>£36,000</b>
Cymorth LIC i'r Cynllun Datblygu Strategol	£0	£57,800	£57,800	£57,800	£57,800	£57,800	<b>£289,000</b>
<b>Cyfanswm</b>	<b>£180,200</b>	<b>£2,123,100</b>	<b>£2,123,100</b>	<b>£1,873,100</b>	<b>£1,873,100</b>	<b>£1,873,100</b>	<b>£10,174,100</b>

Tabl B2: Crynodeb o'r holl Amcangyfrifon Mwyaf ar gyfer Opsiwn 1

Math o Gost	Blwyddyn 1	Blwyddyn 2	Blwyddyn 3	Blwyddyn 4	Blwyddyn 5	Blwyddyn 6	Cyfanswm
Datblygu Economaidd	£690,800	£690,800	£690,800	£690,800	£690,800	£690,800	<b>£4,144,800</b>
Trafnidiaeth	£549,600	£1,630,100	£1,630,100	£1,380,100	£1,380,100	£1,380,100	<b>£7,950,100</b>
Swyddogaethau'r Cynllun Strategol	£0	£760,000	£760,000	£760,000	£760,000	£760,000	<b>£3,800,000</b>
Amser Aelodau	£2,600	£2,600	£2,600	£2,600	£2,600	£2,600	<b>£15,600</b>
Llunio'r Rheoliadau	£36,000	£0	£0	£0	£0	£0	<b>£36,000</b>
Cymorth LIC i'r Cynllun Datblygu Strategol	£0	£57,800	£57,800	£57,800	£57,800	£57,800	<b>£289,000</b>
<b>Cyfanswm</b>	<b>£1,279,000</b>	<b>£3,141,300</b>	<b>£3,141,300</b>	<b>£2,891,300</b>	<b>£2,891,300</b>	<b>£2,891,300</b>	<b>£16,235,500</b>

Tabl B3: Crynodeb o'r holl Amcangyfrifon Lleiaf ar gyfer Opsiwn 2

<b>Math o Gost</b>	<b>Blwyddyn 1</b>	<b>Blwyddyn 2</b>	<b>Blwyddyn 3</b>	<b>Blwyddyn 4</b>	<b>Blwyddyn 5</b>	<b>Blwyddyn 6</b>	<b>Cyfanswm</b>
Uwch-swyddogion	£79,400	£79,400	£79,400	£79,400	£79,400	£79,400	<b>£476,400</b>
Swyddogaeth Corff Corfforedig	£57,700	£57,700	£57,700	£57,700	£57,700	£57,700	<b>£346,200</b>
Cyfarfodydd	£7,000	£7,000	£7,000	£7,000	£7,000	£7,000	<b>£42,000</b>
Archwilio	£21,000	£21,000	£21,000	£21,000	£21,000	£21,000	<b>£126,000</b>
Datblygu Economaidd	£0	£690,800	£690,800	£690,800	£690,800	£690,800	<b>£3,454,000</b>
Swyddogaethau Trafnidiaeth	£0	£470,300	£470,300	£220,300	£220,300	£220,300	<b>£1,601,500</b>
Swyddogaethau'r Cynllun Strategol	£0	£721,500	£721,500	£721,500	£721,500	£721,500	<b>£3,607,500</b>
Llunio'r Rheoliadau	£32,200	£0	£0	£0	£0	£0	<b>£32,200</b>
Cymorth LIC i'r Cynllun Datblygu Strategol	£0	£57,800	£57,800	£57,800	£57,800	£57,800	<b>£289,000</b>
<b>Cyfanswm</b>	<b>£175,900</b>	<b>£2,084,100</b>	<b>£2,084,100</b>	<b>£1,834,100</b>	<b>£1,834,100</b>	<b>£1,834,100</b>	<b>£9,974,800</b>

Tabl B4: Crynodeb o'r holl Amcangyfrifon Mwyaf ar gyfer Opsiwn 2

<b>Math o Gost</b>	<b>Blwyddyn 1*</b>	<b>Blwyddyn 2</b>	<b>Blwyddyn 3</b>	<b>Blwyddyn 4</b>	<b>Blwyddyn 5</b>	<b>Blwyddyn 6</b>	<b>Cyfanswm</b>
Uwch-swyddogion	£79,400	£366,300	£366,300	£366,300	£366,300	£366,300	<b>£1,910,900</b>
Swyddogaeth Corff Corfforedig	£134,300	£619,700	£619,700	£619,700	£619,700	£619,700	<b>£3,232,800</b>
Adeilad, Gweinyddu, Cymorth a TG	£274,700	£112,600	£112,600	£112,600	£112,600	£112,600	<b>£837,700</b>
Cyfarfodydd	£27,200	£27,200	£27,200	£27,200	£27,200	£27,200	<b>£163,200</b>
Archwilio	£34,000	£34,000	£34,000	£34,000	£34,000	£34,000	<b>£204,000</b>
Datblygu Economaidd	£690,800	£690,800	£690,800	£690,800	£690,800	£690,800	<b>£4,144,800</b>
Swyddogaethau Trafnidiaeth	£0	£470,300	£470,300	£220,300	£220,300	£220,300	<b>£1,601,500</b>
Swyddogaethau'r Cynllun Strategol	£0	£721,500	£721,500	£721,500	£721,500	£721,500	<b>£3,607,500</b>
Llunio'r Rheoliadau	£32,200	£0	£0	£0	£0	£0	<b>£32,200</b>
Cymorth LIC i'r Cynllun Datblygu Strategol	£0	£57,800	£57,800	£57,800	£57,800	£57,800	<b>£289,000</b>
<b>Cyfanswm</b>	<b>£1,272,600</b>	<b>£3,100,200</b>	<b>£3,100,200</b>	<b>£2,850,200</b>	<b>£2,850,200</b>	<b>£2,850,200</b>	<b>£16,023,600</b>

\* Rhagdybir y byddai'n cymryd blwyddyn i gyflogi pobl mewn swydd felly caiff pob aelod o staff ei gontractio o awdurdod lleol am un diwrnod fesul wythnos waith am y flwyddyn gyntaf

## Atodiad C – Costau 'Corff Cyhoeddus' enghreifftiol

- C1. Bydd y Rheoliadau sy'n sefydlu CBCau yn ceisio cymhwyso dyletswyddau 'corff cyhoeddus' presennol i CBC gan gynnwys cymhwyso dyletswyddau o dan y ddeddfwriaeth a ganlyn:
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
  - Safonau'r Gymraeg
- C2. Mae'r Atodiad hwn yn ystyried, at ddibenion enghreifftiol yn unig, gostau posibl cymhwyso'r dyletswyddau hyn i CBC fel dyletswyddau annibynnol ac ychwanegol. Fodd bynnag, fel y nodwyd eisoes, nid yw'r RIA yn ceisio rhoi cyfrif ar wahân am gostau o'r fath. Rhagdybir at ddiben yr RIA hwn y bydd arfer y dyletswyddau hynny yn rhan o swyddogaeth Corff Corfforedig CBC, ac mae'r costau wedi eu cynnwys yn yr ystod o gostau ar gyfer y swyddogaeth hon a roddir uchod. Mae costau cyfieithu wedi eu cynnwys hefyd fel rhan o gostau Cyfarfodydd / Llywodraethiant ac ym mhob maes swyddogaeth.

### *Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015*

- C3. Mae Pennod 7 o Femorandwm Esboniadol (sy'n ymgorffori'r RIA) Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)<sup>23</sup> yn nodi costau gweithredu'r dyletswyddau i wella'r trefniadau llywodraethiant i wella llesiant a datblygu cynaliadwy i Gymru o dan Fil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) ar gyfer nifer o gyrff cyhoeddus gan gynnwys awdurdodau lleol.
- C4. O dan y dyletswyddau hyn, mae'n ofynnol i'r cyrff sector cyhoeddus a enwir bennu, cyflawni ac adrodd yn erbyn amcanion yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, sy'n cyflawni cyfres o nodau llesiant hirdymor a rennir ar gyfer Cymru, gan felly sicrhau bod anghenion cenedlaethau'r dyfodol yn cael eu hystyried mewn trefniadau llywodraethiant ar gyfer gwella llesiant Cymru.
- C5. Mae'n bwysig nodi, wrth ystyried costau ychwanegol y dyletswyddau perthnasol ar gyrff cyhoeddus, fod yr RIA ar gyfer Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yn datgan:

'Bydd y goblygiadau i sefydliadau'n dibynnu ar y strategaethau y byddant yn eu datblygu i gyflawni'r amcanion llesiant y maent wedi eu gosod mewn ymateb i'r ddeddfwriaeth. Bydd sefydliadau yn defnyddio'u disgresiwn wrth osod a chyflawni eu hamcanion llesiant. Mae hyn yn caniatáu i'r rhai sy'n gwneud y penderfyniadau o fewn y sefydliad i ddewis pa ddull gweithredu fydd orau i gyflawni eu hamcanion. Gan nad yw'r amcanion hyn wedi eu gosod eto a chan nad yw'r ymatebion cysylltiedig wedi eu datblygu a'u cytuno gan y sefydliadau, nid yw'n bosibl mewn egwyddor i'r costau a'r manteision hynny gael eu mesur mewn ffordd ystyrllon ar hyn o bryd gan

---

<sup>23</sup> [Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\) – Memorandwm Esboniadol](#)

fod y camau a chanlyniadau posibl yn rhy eang. Y sefydliadau eu hunain ddylai ddod o hyd i'r atebion cynaliadwy gorau ar gyfer cyd-destun eu gwaith, ac nid yw'n briodol i'r ddeddfwriaeth ddiffinio beth yn union yw'r ateb a'r camau y dylai pob sefydliad eu cymryd.'

C6. Nid yw Tabl C1 yn ceisio mesur costau a manteision cyflawni'r amcanion ond mae'n ystyried y costau posibl hynny, pe bai'r rhain yn cael eu hystyried ar wahân, o bennu, monitro ac adrodd am amcanion corfforaethol fel yr amlinellir yn RIA Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (tabl 17). Wrth ystyried y costau a amlinellir yn RIA Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) rydym wedi cymryd cyfartaledd costau prif gyngor a amlinellir yn nhabl a7 o RIA Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (hy, rydym wedi cymryd cyfanswm costau awdurdodau lleol a'i rannu â 22<sup>24</sup>) ac wedi ei gymhwyso i CBC – gweler Tabl A isod.

C7. Wrth wneud hynny dylid cydnabod mai dim ond cost ddangosol yw hon. Ar gyfer CBC, fel cost annibynnol, byddai'n debygol o fod yn is gan y bydd gan CBC lawer llai o swyddogaethau na phrif gyngor ac felly byddai gosod ac adrodd am amcanion yn debygol o fod yn dasg lai costus.

**Tabl C1: Costau dangosol cymhwyso dyletswyddau llesiant i CBC fel dyletswyddau ychwanegol annibynnol**

Math o Gost		Blwyddyn 1	Blynyddoedd 2 - 6
Costau Trosiannol a Rheolaidd	Amcanion Corfforaethol	£ 78,691	£ -
	Diweddarau ac Adrodd	£ -	£ 30,834
		<b>£ 78,691</b>	<b>£ 30,834</b>

#### *Safonau'r Gymraeg*

C8. Ar hyn o bryd, mae prif gynghorau'n cydymffurfio â Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015 (Rheoliadau Rhif 1) ac maent wedi eu cynnwys fel cyrff yn atodlen 6 i Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 (ar hyn o bryd fel cynghorau bwrdeistref sirol a chynghorau sir). Lluniwyd Rheoliadau Rhif 1 i wneud safonau sy'n benodol gymwys i Weinidogion Cymru, cynghorau sir neu gynghorau bwrdeistref sirol yng Nghymru, ac Awdurdodau Parciau Cenedlaethol Cymru.

C9. Fel rhan o'r dull 'teulu llywodraeth leol' o ddatblygu CBCau, ac at ddibenion enghreifftiol yn unig, rydym wedi rhagdybio bod y Rheoliadau CBC yn cymhwyso Rheoliadau Rhif 1 i CBC fel pe bai'n brif gyngor. At ddibenion yr RIA hwn felly rydym wedi ystyried costau cyfartalog awdurdodau lleol fel y'u nodir ym Memorandwm Esboniadol<sup>25</sup> Rheoliadau Rhif 1 fel y maent yn gymwys i awdurdodau lleol.

<sup>24</sup> Mae'r gwerthoedd hyn wedi bod drwy'r dachwyddydd cynnyrch domestig gros ar 8.3%.

<sup>25</sup> [Rheoliadau Safonau'r Gymraeg \(Rhif 1\) Cymru 2015 – Memorandwm Esboniadol](#)

C10. Mae'n bwysig nodi y gwnaeth RIA Rheoliadau Rhif 1 ystyried y costau i awdurdodau lleol sy'n gysylltiedig â'r Cynlluniau Iaith Gymraeg a oedd eisoes yn bodoli fel yr oeddent yn cael eu gweithredu o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 a chostau ychwanegol gweithredu'r safonau yn unol â Rheoliadau Rhif 1. At ddibenion yr RIA hwn felly rydym wedi cynnwys y ddwy gost er mwyn dangos cyfanswm posibl y gost i CBC<sup>26</sup>.

C11. Wrth wneud hynny, mae'n bwysig nodi mai dim ond cost ddangosol yw hon, a chan fod dyletswydd annibynnol yn debygol o fod yn sylweddol is gan y bydd gan CBC lawer llai o swyddogaethau nag awdurdod lleol byddai gweithredu'r safonau yn debygol o fod yn dasg lai costus. Mae'n werth nodi hefyd y cafodd Rheoliadau Rhif 1 eu gwneud (a'u costio) yn 2014. Bydd cyrff perthnasol, gan gynnwys prif gynghorau, wedi cael cyfle i ddatblygu ffyrdd mwy arloesol ac effeithlon o gydymffurfio â'r safonau – er enghraifft defnyddio TGCh i hwyluso cyfieithu a rhannu adnoddau.

C12. Mae'r costau dangosol yn y tabl isod hefyd yn rhagdybio y bydd CBC yn sefydlu gweithdrefnau ac yn ymgymryd â'r gweithgaredd angenrheidiol yn gwbl annibynnol ar ei brif gynghorau cyfansoddol – felly o ran y gwaith modelu yn y RIA hwn, dyma fyddai'r gost fwyaf posibl.

**Tabl C2: Costau dangosol gweithredu Safonau'r Gymraeg**

	<b>Cost Flynyddol</b>
Cynlluniau Iaith Gymraeg a oedd eisoes yn bodoli fel yr oeddent yn cael eu gweithredu o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993	£ 197,025
Cyfanswm cost ychwanegol Gweithredu'r Safonau (yn unol â Rheoliadau Rhif 1)	£ 255,643
	<b>£ 452,668</b>

C13. Mae'n bwysig pwysleisio, fel y nodwyd yn RIA Rheoliadau Rhif 1, mai amcangyfrifon yn unig yw'r ffigurau enghreifftiol uchod, ac mai dim ond pan fydd y Comisiynydd wedi rhoi hysbysiadau cydymffurfio i'r CBCau y byddai gwerthusiad mwy cywir o'r costau yn bosibl. Bydd CBCau hefyd yn elwa o brofiad ac adnoddau'r prif gynghorau cyfansoddol ac felly mae'r costau'n debygol o fod yn sylweddol is.

<sup>26</sup> Mae'r gwerthoedd hyn wedi bod drwy'r dachwyddydd cynnyrch domestig gros ar 8.3%.